



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Cynllunio i Ryddhau Cleifion – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 111A2017-18



Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru - swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Fflur Jones a Gabrielle Smith.

Cynnwys

Gall y Bwrdd Iechyd ddangos ei fwiad i wella llif cleifion a chynllunio i ryddhau cleifion, ond mae hyder y staff a'r hyfforddiant ar eu cyfer yn dal i fod yn her, a'i berfformiad yn dal i fod yn wael.

Adroddiad cryno

Y Cefndir	4
Y Prif Ganfyddiadau	5
Argymhellion	7

Adroddiad manwl

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd sawl cam i gyflawni ei weledigaeth ar gyfer gwella gwaith cynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion, ond ceir rhai bylchau mewn polisiau, protocolau a llwybrau

9

Mae hyder y staff a'r hyfforddiant ar eu cyfer yn anghyson, mae adnoddau cynllunio i ryddhau cleifion yn parhau i fod wedi'u cyfyngu i ddydd Llun i ddydd Gwener

21

Mae'r trefniadau ar gyfer monitro, adrodd a chraffu ar gynlluniau i ryddhau cleifion yn effeithiol ar y cyfan, ond mae perfformiad yn parhau i fod yn wael

35

Atodiadau

Atodiad 1 – Canfyddiadau meintiol Uned Gyflawni GIG Cymru o archwiliadau o gynlluniau rhyddhau yn ysbytai aciwt y Bwrdd Iechyd	46
Atodiad 2 – methodoleg archwilio	49
Atodiad 3 – ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion	51
Atodiad 4 – gweithgarwch a gyflawnir gan y tîm cyswllt rhyddhau cleifion	58

Adroddiad cryno

Y Cefndir

- 1 Proses barhaus i ganfod y gwasanaethau a'r gefnogaeth y gallai unigolyn fod eu hangen wrth adael yr ysbyty (neu wrth symud rhwng ysbytai) yw cynllunio i ryddhau. Y nod yw sicrhau bod y gofal cywir ar gael, yn y man cywir, ac ar yr amser cywir. Mae proses ryddhau effeithiol ac effeithlon yn ffactor pwysig mewn llif cleifion da ac yn allweddol i sicrhau gofal cleifion da a defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau'r GIG. Llif cleifion yw'r llif o gleifion rhwng staff, adrannau a sefydliadau eraill ar hyd llwybr gofal, o fod wedi cyrraedd yr ysbyty hyd at ryddhau neu drosglwyddo.
- 2 Mae gwelyau mewn ysbytai o dan bwysau cynyddol, yn enwedig gan fod 1,800 o welyau wedi cael eu colli ar draws Cymru dros y chwe blynedd diwethaf. Gall cynllunio gwael wrth ryddhau cleifion olygu arosiadau hwy diangen, sydd yn eu tro yn amharu ar rannau eraill o'r ysbyty, gan greu amseroedd aros hirach mewn adrannau damweiniau ac achosion brys neu ganslo derbyniadau cynlluniedig.
- 3 Bob blwyddyn, ledled Cymru bydd cleifion yn cael eu derbyn a'u rhyddhau o'r ysbyty tua 750,000 o weithiau. Mae'r broses ryddhau yn gymharol syml i 80% o'r cleifion sy'n gadael yr ysbyty. Bydd y cleifion hyn yn dychwelyd adref gyda mân anghenion iechyd neu ofal cymdeithasol, os o gwbl, heb fod angen cynlluniau a darpariaeth gymhleth. I'r 20% o gleifion sy'n weddill, mae cynllunio i ryddhau yn broses fwy cymhleth oherwydd anghenion iechyd ac/neu ofal cymdeithasol parhaus, a allai fod yn anghenion tymor byr neu dymor hir.
- 4 Yn achos cleifion unigol, y mae llawer ohonynt yn 65 oed neu'n hŷn, gall oedi wrth ryddhau o'r ysbyty arwain at ganlyniadau salach yn sgil colli annibyniaeth, hyder a'r gallu i symud, yn ogystal â risg o gael heintiau yn yr ysbyty, o ail-dderbyn i'r ysbyty neu'r angen am gymorth hirdymor.
- 5 Er gwaethaf y lluo o ganllawiau i gefnogi cynlluniau rhyddhau da,^{1 2 3} dangosai gwaith a gyflawnwyd yn 2016 gan Uned Gyflawni (yr Uned Gyflawni) GIG Cymru yn holl ysbytai Cymru fod cyfleoedd i wella'r broses cynllunio i ryddhau cleifion, i ryddhau capasiti sylweddol i gleifion mewnol ac i wella profiadau a chanlyniadau cleifion. Roedd meysydd penodol i'w gwella yn cynnwys:
 - gweithio'n well gyda gwasanaethau cymunedol;
 - nodi'n gliriach ac yn gynharach y cymhlethdod yn gysylltiedig â rhyddhau o'r ysbyty, fel bo modd hwyluso'r broses ryddhau;
 - mwy o eglurder ynghylch llwybrau rhyddhau; a
 - gwell gwybodaeth a chyfathrebu â chleifion a'u teuluoedd.

¹ Cylchlythyr Iechyd Cymru (2005) 035, Hospital Discharge Planning Guidance, 2005/035 [Saesneg yn unig]

² Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, Passing the Baton, 2008

³ Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth Glinigol (NICE), Transition between inpatient hospital settings and community or care home settings for adults with social care needs, 2015

- 6 Asesodd yr Uned Gyflawni y dystiolaeth ysgrifenedig mewn nodiadau achos yn erbyn gofynion penodol a nodwyd yn 'Passing the Baton'². Mae'r canfyddiadau ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) yn dangos bod y broses rhyddhau cleifion yn wael i raddau helaeth ar draws ei ysbytai cyffredinol dosbarth (ADD) o'i asesu yn erbyn arferion disgwylidig. Dangosir y canfyddiadau'n fanylach yn [Atodiad 2](#).
- 7 Mae llawer o'r materion a amlygwyd gan yr Uned Gyflawni wedi bod yn themâu cyffredin ers blynyddoedd, a phrin yw'r dystiolaeth i awgrymu bod prosesau cynllunio i ryddhau cleifion yn gwella go iawn. Gan fod y galw am wasanaethau ysbyty ar gynnydd a'r capasiti gwelyau yn parhau i ostwng, penderfynodd yr Archwilydd Cyffredinol ei bod hi'n bryd adolygu a yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn ddigon cadarn i sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflwyno i gynlluniau rhyddhau cleifion.
- 8 Archwiliai'r adolygiad hwn a oedd gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewn perthynas â chynllunio i ryddhau. Ceir manylion y fethodoleg archwilio yn [Atodiad 2](#). Yn y gwaith, gofynnwyd yn benodol a oedd y canlynol gan y Bwrdd Iechyd:
- fframwaith cynllunio strategol cadarn ar waith er mwyn cynllunio i ryddhau cleifion;
 - trefniadau effeithiol i fonitro ac adrodd ar gynlluniau i ryddhau cleifion; a
 - chymryd camau priodol i reoli cynlluniau rhyddhau cleifion a sicrhau gwelliannau.
- 9 Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi bod yn cynnal adolygiad o waith addasu tai. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, o ystyried cyfrifoldebau'r naill a'r llall dros reoli a dyrannu Grantiau cyfleusterau i'r Anabl, Grantiau Addasiadau Ffisegol a ffrydiau ariannu eraill a ddefnyddir i ariannu addasiadau. Ceir cysylltiadau clir rhwng hyn a chynlluniau rhyddhau cleifion o ystyried y ffaith y gall oedi wrth osod neu ariannu addasiadau tai arwain at oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Yn ogystal â hyn, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi bod yn archwilio ansawdd y llif cyfathrebu a gwybodaeth rhwng gofal sylfaenol a gofal eilaidd yng nghyswllt rhyddhau cleifion. Bwriedir cyhoeddi'r adroddiadau, sy'n nodi canfyddiadau'r ddau adolygiad hyn, yn nhymer yr hydref 2017.

Y Prif Ganfyddiadau

- 10 Dyma ein casgliad cyffredinol: **Gall y Bwrdd Iechyd ddangos ei fwriad i wella llif cleifion a chynllunio i ryddhau cleifion, ond mae hyder y staff a'r hyfforddiant ar eu cyfer yn dal i fod yn her, a'i berfformiad yn dal i fod yn wael.** Yn y paragraffau isod, rydym wedi nodi'r prif resymau dros ddod i'r casgliad hwn.
- 11 **Cynllunio:** Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd sawl cam i gyflawni ei weledigaeth ar gyfer gwella gwaith cynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion, ond ceir rhai bylchau mewn polisiau, protocolau a llwybrau. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
- mae'r Bwrdd yn cyfleu'n glir yn ei gynlluniau ei fod yn bwriadu atgyfnerthu'r broses o ryddhau cleifion yn rhan o ymagwedd i wella llif cleifion;
 - mae'r polisi a'r protocol rhyddhau yn trafod ystod eang o wybodaeth, ond gellid atgyfnerthu rhai meysydd; ac

- mae'r Bwrdd Iechyd yn ddiweddar wedi datblygu llwybrau yn seiliedig ar arfer da, ond nid ydynt yn cynnwys amryw o elfennau a allai gefnogi cynllunio i ryddhau cleifion.

12 **Trefniadau i gefnogi rhyddhau cleifion:** Mae hyder y staff a'r hyfforddiant ar eu cyfer yn anghyson, mae adnoddau cynllunio i ryddhau cleifion yn parhau i fod wedi'u cyfyngu i ddydd Llun i ddydd Gwener.

Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Bwrdd Iechyd wedi neilltuo adnoddau ar gyfer rhyddhau cleifion, ond mae'r rhain yn amrywio rhwng gwahanol ardaloedd, ac nid ydynt ond ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener; ac
- mae'r hyfforddiant staff wedi bod yn wael yn y gorffennol, ac nid yw ymwybyddiaeth y staff o bolisïau, llwybrau na gwasanaethau cymunedol, na'u hyder ynddynt, yn gyson.

13 **Monitro ac adrodd:** Mae'r trefniadau ar gyfer monitro, adrodd a chraffu ar gynlluniau i ryddhau cleifion yn effeithiol ar y cyfan, ond mae perfformiad yn parhau i fod yn wael. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- ceir llinellau atebolrwydd clir ar gyfer monitro a gwella prosesau cynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion, a threfniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad;
- mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio ystod o wybodaeth i'w helpu i graffu ar lif cleifion mewn modd amserol, ond gallai gynnwys data sy'n ymwneud yn fwy penodol â chynllunio i ryddhau cleifion er mwyn cefnogi gwelliant; ac
- er bod canran y cleifion sy'n wynebu oedi hir cyn eu rhyddhau wedi gwella rhywfaint yn ddiweddar, mae perfformiad wrth gynllunio i ryddhau yn dal i fod yn gymharol wael.

Argymhellion

O ganlyniad i'r gwaith hwn, rydym wedi cyflwyno sawl argymhelliad i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch cynllunio i ryddhau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd, sy'n nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r argymhellion hyn, wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4**.

Dangosyn 1: argymhellion

Argymhellion	
A1	<p>Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion Er gwaethaf cynlluniau i drefnu hyfforddiant amlasiantaeth ac amlddisgyblaeth ar bolisiâu a phrotocolau cynllunio i ryddhau, nid yw hyfforddiant yn cael ei ddarparu mewn modd cyson. Dylai'r Bwrdd Iechyd:</p> <p>a) ehangu argaeledd y broses cynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o hyfforddiant ymsefydlu, i gynnwys staff meddygol newydd;</p> <p>b) darparu hyfforddiant gloywi ar y polisi a'r protocol rhyddhau ar gyfer yr holl staff perthnasol; a</p> <p>c) darparu hyfforddiant ar lwybrau rhyddhau syml a chymhleth y Bwrdd Iechyd.</p>
A2	<p>Cydymffurfiaeth â'r polisi rhyddhau. Nodir yn y polisi a'r protocol rhyddhau cleifion y defnyddir archwiliadau clinigol i fonitro cydymffurfiaeth, ond gwelsom nad oedd archwiliad wedi cael ei gynnal yn ddiweddar. Dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno cylch rheolaidd o archwiliadau er mwyn sicrhau cydymffurfio â'i bolisi a'i brotocol ar gyfer rhyddhau cleifion.</p>
A3	<p>Llwybrau rhyddhau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dau lwybr rhyddhau cyffredinol: syml a chymhleth, ond ceir anghysondeb yn y modd y caiff y llwybrau hynny eu cymhwysu ar draws y tri safle ysbyty, ac mae rhai agweddau ar arfer da wedi'u hepgor. Er mwyn gwella ei ddefnydd o lwybrau, dylai'r Bwrdd Iechyd:</p> <p>a) sicrhau bod ei lwybrau rhyddhau yn cael eu cymhwysu'n gyson ar draws ei dri safle ysbyty; a</p> <p>b) datblygu ei lwybrau rhyddhau syml a chymhleth ymhellach drwy gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• safonau cytunedig ar gyfer amseroedd ymateb;• gwybodaeth am ansawdd a diogelwch;• prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth; a• threfniadau i gyfeirio cleifion ag anghenion gofal diwedd oes.
A4	<p>Rhyddhau'n brydlon. Gwelsom fod y staff yn cael eu hannog i ryddhau cleifion erbyn 11am (cyfeirir at hyn fel 'rhaglen yr awr aur'), ond gallai hyn olygu bod cleifion sydd o bosib yn ddiogel i'w rhyddhau y prynhawn blaenorol, neu gyda'r nos, yn wynebu oedi tan y diwrnod canlynol er mwy cyrraedd targed 11am. Nid oedd yr wybodaeth a adroddwyd wrth y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ar ryddhau cleifion yn ôl amser o'r dydd yn gwahaniaethu rhwng achosion priodol ac amhriodol o ryddhau, gan fod yr holl achosion o ryddhau rhwng hanner nos ac 11am wedi'u cynnwys yn yr un categori. Er na chawsom hyd i unrhyw dystiolaeth gyfredol o ymddygiad annymunol, dylai'r Bwrdd Iechyd gymryd camau i liniaru'r risg hon, drwy:</p>

Argymhellion

- a) adrodd data manylach ar gleifion a gaiff eu rhyddhau rhwng 12am a 7am, a'r rhai a gaiff eu rhyddhau rhwng 7am ac 11am; a
- b) chyflwyno mesurau ychwanegol fydd yn ei alluogi i ddeall a yw'r penderfyniadau i ryddhau cleifion o dan 'raglen yr awr aur' yn briodol, neu a yw'r broses o ryddhau cleifion yn cael ei hoedi dros nos, heb fod angen, er mwyn cydymffurfio â'r targed hwn.
- A5 **Pwyntiau mynediad unigol (PMU).** Gwelsom anghysondeb wrth adolygu ymwybyddiaeth y staff o wasanaethau cymunedol i gefnogi rhyddhau cleifion. Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod pob un o'r modelau PMU a sefydlwyd yn ystod 2016-17 yn cael eu gweithredu mewn modd effeithiol. Dylai'r Bwrdd lechyd:
- a) weithio gyda'r awdurdodau lleol sy'n bartneriaid iddo i sicrhau cysondeb ac ansawdd yr wybodaeth a gedwir am bob PMU;
- b) sicrhau bod staff o'r holl safleoedd ysbyty yn derbyn hyfforddiant digonol ar yr ystod o wasanaethau sydd ar gael drwy'r tri model PMU; a
- c) sicrhau ei bod hi'n hawdd i staff ganfod gwybodaeth am y modelau PMU newydd.
- A6 **Adroddiadau rhyddhau.** Gwelsom fod y Bwrdd, y Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn derbyn gwybodaeth reolaidd am achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, ond mai ychydig o wybodaeth a gyflwynir iddynt yn benodol am gynllunio i ryddhau cleifion. Byddai gwybodaeth o'r fath o gymorth i sicrhau dealltwriaeth well o'r rhesymau wrth wraidd perfformiad y Bwrdd lechyd. Dylai'r Bwrdd lechyd atgyfnerthu ei drefniadau i adrodd ar berfformiad drwy gynnwys mesurau ychwanegol yn ei adroddiad rheolaidd ar berfformiad:
- nifer a % y cleifion yr amcanwyd dyddiad rhyddhau ar eu cyfer;
 - aildderbyniadau cyn pen 28 diwrnod ar ôl rhyddhau o'r ysbyty;
 - % sy'n cael eu rhyddhau cyn hanner dydd;
 - % sy'n cael eu rhyddhau gyda'r nos, heb i hynny fod wedi'i gynllunio; a'r
 - % sy'n cael eu rhyddhau cyn pen 24 awr a 72 awr yn dilyn datganiad eu bod yn 'feddygol iach'.

Adroddiad manwl

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd sawl cam i gyflawni ei weledigaeth ar gyfer gwella gwaith cynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion, ond ceir rhai bylchau mewn polisïau, protocolau a llwybrau

Mae'r Bwrdd yn cyfleu'n glir yn ei gynlluniau ei fod yn bwriadu atgyfnerthu'r broses o ryddhau cleifion yn rhan o ymagwedd i wella llif cleifion

- 14 Ym mis Hydref 2016, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon at holl Gadeiryddion y GIG er mwyn cadarnhau ei fod yn disgwyl i gynlluniau gwella gofal heb ei drefnu yn cynnwys cynlluniau i wella prosesau rhyddhau cleifion. Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ⁴ hefyd yn cyfleu'n glir y dylai sefydliadau nodi sut mae eu cynlluniau yn cefnogi ac yn gwella llif cleifion. Dylid canolbwyntio ar leihau'r nifer o bobl oedrannus a bregus sy'n cael eu derbyn, drwy asesu ac ymyrryd mewn modd rhagweithiol, a rhyddhau cleifion mor fuan ag sy'n briodol o safbwynt clinigol, heb unrhyw oedi diangen.
- 15 Yn rhan o'n gwaith archwilio, buom yn asesu'r graddau y mae cynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o ymagwedd strategol ehangach i wella llif cleifion. Gwelsom fod y Bwrdd Iechyd naill ai'n datblygu, neu wedi sefydlu nifer o gynlluniau a strategaethau ar lefel ysbytai cyffredinol dosbarth, ar lefel y Bwrdd Iechyd ac ar raddfa ranbarthol gyda'r awdurdodau lleol sy'n bartneriaid iddo. Mae'r cynlluniau a'r strategaethau hyn yn cynnwys:
 - drafft y strategaeth 'Cadw'n Iach, Byw'n Dda';
 - y Cynllun Gweithredu Blynyddol;
 - cynlluniau gweithredu rhanbarthol 'pum diwrnod mewn ystafell'; a'r
 - Cynllun Tymhorol.
- 16 'Cadw'n Iach, Byw'n Dda' yw strategaeth glinigol ddrafft y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau clinigol yn caeleu cyflenwi lle bo'r mwyaf o angen amdanynt. Mewn papur a gyflwynwyd gerbron y Bwrdd ym mis Mai 2017, nodwyd themâu a oedd yn codi o ddigwyddiadau ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd ag ystod eang o staff, sefydliadau partner a grwpiau cymunedol ynghylch y strategaeth. Dwy thema allweddol a godai o'r digwyddiadau ymgysylltu ag ysbytai aciwt oedd capasiti gofal sylfaenol a chapasiti yn y gymuned er mwyn atal derbyniadau a helpu i ryddhau cleifion yn fuan, a'r angen i wella llif cleifion. Cododd themâu tebyg yn ymwneud â llif cleifion o'r digwyddiadau ymgysylltu gofal nes at adref, ac o'r diwyddiadau ymgysylltu ar gyfer pobl hŷn.
- 17 Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd y Bwrdd Iechyd yn gweithio ar Gynllun Gweithredol blynyddol (CGB) a nodai ei flaenoriaethau ar gyfer 2016-17. Mae CGB y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17 a 2017-18 yn dangos bwriad clir i wella llif cleifion drwy leihau derbyniadau mewn Adranau Damweiniau ac Achosion Brys drwy gynnig llwybrau gofal amgen, a chynyddu ei allu i

⁴ Llywodraeth Cymru, [Fframwaith Cynllunio'r GIG 2017/20, 2016](#)

ryddhau cleifion yn gyflym ac effeithiol. Roedd CGB 2016-17 yn cynnwys sawl ymrwymiad yn gysylltiedig â rhyddhau cleifion, gan gynnwys:

- trosglwyddo cleifion i gartref neu breswylfan yn ddiogel, a chyn gynted ag sy'n bosibl;
- darparu triniaeth barhaus lle bo hynny'n bosibl, naill ai fel claf allanol neu gartref;
- gweithredu'r broses o gyflwyno Amcan o Ddyddiad Rhyddhau (ADRh)⁵
- datblygu prosesau rhyddhau mwy effeithiol ac integredig, fel sefydlu rhawdiau i'r bwrdd bob dydd o'r wythnos;
- recriwtio Gweithwyr Lechyd a Gofal Cymdeithasol ychwanegol drwy'r gronfa gofal canolraddol;
- datblygu capasiti cymunedol drwy gynlluniau gofal canolraddol; a
- gweithredu targed o 21 diwrnod o ran hyd arosiadau mewn ysbytai cymunedol.


- 18 Yn adroddiad diwedd blwyddyn y Bwrdd Lechyd ar CGB 2016-17 nodwyd cynnydd da yn erbyn yr ymrwymadau a restrir uchod. Er enghraifft, sicrhodd y Bwrdd Lechyd gyllid gofal sylfaenol i recriwtio tri gweithiwr cymorth lechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol. Rôl y tîm cymorth lechyd a Gofal Cymdeithasol yw cynorthwyo cleifion i fyw'n annibynnol drwy ddarparu gofal priodol iddynt yn amgylchedd eu cartref. Roedd y Bwrdd Lechyd wedi llwyddo i recriwtio mwyafrif y gweithwyr cymorth erbyn mis Ebrill 2017. Nodwyd yn yr adroddiad hefyd fod y Bwrdd Lechyd wedi llwyddo i weithredu'r broses o gyflwyno ADRh a system i fonitro cydymffurfio ag ADRh. Fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys manylion y cyfraddau cydymffurfio ag ADRh ar ddiwedd y flwyddyn.
- 19 Mae'r CGB ar gyfer 2017-18 yn amlinellu sawl nod yn gysylltiedig â'r broses cynllunio i ryddhau cleifion a lleihau achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (OwDG). Mae'r CGB yn cynnwys targed i fyrhau arosiadau mewn ysbytai cymunedol ar gyfradd o 10% drwy welliannau fel gweithredu 'pasbortau rhyddhau' a phrosesau uwchgyfeirio i gefnogi trefniadau i ryddhau'n fuan. Mae'r Bwrdd Lechyd hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod gan 70% o'i gleifion ADRh erbyn diwedd y flwyddyn.
- 20 Ym mis Rhagfyr 2016, bu tri Thîm Ardal y Bwrdd Lechyd yn arwain ymarfer o'r enw 'Pum Diwrnod mewn Ystafell', y cymerodd ei dimau amlddisgyblaeth ran ynddo. Cafodd y timau amlddisgyblaeth hyn, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o ysbytai aciwt, ysbytai cymunedol, gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a Chyfarwyddwyr Timau Ardal, eu tywys fesul cam drwy'r broses llif cleifion er mwyn cael dealltwriaeth well o'r pwysau gweithredol a brofir gan bob partner. Dywedodd y staff y buom yn siarad â hwy pa mor werthfawr oedd yr ymarfer hwn, a'r modd yr agorodd eu llygaid i broblemau na wyddent amdanynt, fel prinder gweithwyr gofal a diffyg gwelyau i Henoed Eiddil eu Meddwl. O ganlyniad i hyn, datblygodd pob ardal gynllun gweithredu llif cleifion, a oedd yn adeiladu ar y camau a nodwyd yn adolygiad yr Uned Gyflawni. Nodwyd camau gweithredu ar gyfer y Bwrdd Lechyd a hefyd ar gyfer yr awdurdodau lleol sy'n bartneriaid iddo.

⁵Yr amcan o'r dyddiad rhyddhau yw'r dyddiad pan ragwelir y bydd claf yn cael ei ryddhau o'r ysbyty. Yn aml, fe'i gelwir hefyd yn Ddyddiad Rhyddhau Disgwyliedig.

- 21 Adleisir gweledigaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwella llif cleifion drwy ystod o wahanol gynlluniau a ddylai effeithio ar drefniadau rhyddhau cleifion, gan gynnwys ei Gynllun Tymhorol⁶ ar gyfer gaeaf 2016-17. Datblygwyd y Cynllun Tymhorol mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), a'r chwe awdurdod lleol sy'n bartneriaid iddo. Yn gyffredin â chynlluniau eraill y Bwrdd Iechyd, mae'r Cynllun Tymhorol hefyd yn pwysleisio'r angen i leihau derbyniadau, gweithredu argymhellion adolygiad yr Uned Gyflawni, a mesurau fel gweithredu ADRh ar gyfer cleifion yn brydlon.
- 22 Gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd ddisgrifio unrhyw flaenoriaethau yn gysylltiedig â rhyddhau o'r ysbty yr oedd wedi cytuno arnynt ar y cyd â phartneriaid statudol, neu bartneriaid o'r trydydd sector. Dyma oedd y blaenoriaethau a ddisgrifiwyd gan y Bwrdd Iechyd:
- darparu gwelyau cam i fyny/cam i awr ar y cyd;
 - datblygu uned asesu bregusrwydd 2017-18;
 - pwynt mynediad unigol;
 - derbyn danfoniadau ar yr un diwrnod o'r cyd-storfa cyfarpar;
 - protocol rhyddhau;
 - cyd-brotocol dewis;
 - Gwasanaeth Adref o'r Ysbyty y Groes Goch; a
 - Gofal a Thrwsio.
- 23 O gynlluniau ac adroddiadau'r Bwrdd Iechyd gallwn weld ei fod yn gweithredu'n unol â nifer o'r blaenoriaethau hyn. Er enghraifft, yn unol â'r adroddiad ar Gynllun Gweithredol Blynyddol 2016-17, y mae wedi sicrhau gwelliannau wrth gynyddu darpariaeth gwelyau cam i fyny/cam i lawr ychwanegol ar draws Gogledd Cymru, y mae'r Bwrdd Iechyd a'i awdurdodau lleol wedi'u cyd-ariannu drwy ddefnyddio arian o'r Gronfa Gofal Integredig. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu Pwyntiau Mynediad Unigol ac i ddatblygu unedau bregusrwydd.
- 24 Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG pa ffactorau sy'n cyfrannu at oedi wrth drosglwyddo gofal, er mwyn canfod i ba raddau y mae eu cynlluniau'n anelu i ymdrin â'r ffactorau sy'n achosi'r mwyaf o broblemau. Yn **Nangosyn 2** gwelir bod prinder o ofalwyr cartref, prinder o welyau mewn cartrefi gofal i bobl â dementia, a phrinder capasiti ar draws gwasanaethau ailalluogi cymunedol yn ffactorau o bwys sydd yn achosi oedi wrth ryddhau cleifion neu drosglwyddo gofal.

⁶ Mae'r Cynllun Tymhorol yn disgrifio'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd er mwyn ymdrin â chynnydd sylweddol yn y galw yn ystod misoedd y gaeaf. Enw arall cyffredin ar y cynllun mewn Byrddau Iechyd eraill yw 'Cynllun y Gaeaf'.

Dangosyn 2: ffactorau sy'n cyfrannu at oedi wrth ryddhau cleifion neu drosglwyddo gofal ar draws sefydliadau'r GIG



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017⁷

25 Adroddodd y Bwrdd Iechyd fod y problemau canlynol yn aml yn achosi oedi wrth ryddhau cleifion:

- prinder gwelyau mewn cartrefi gofal i bobl â dementia
- prinder gofawyr cartref
- prinder gwelyau cyffredinol mewn cartrefi nyrsio
- disgwyliadau cleifion ac anghydfodau â'r teulu
- prinder capasiti o ran darparwyr gofal cartref annibynnol
- yr amser y mae'n cymryd i gwblhau asesiadau cartrefi gofal
- nifer cyfyngedig o welyau gofal canolraddol
- trosglwyddiadau i gyfleusterau arbenigol y GIG

26 Yn ôl papurau'r Bwrdd o 2017, mae'r Bwrdd Iechyd yn sefydlu nifer o fesurau er mwyn ymateb i'r heriau hyn. Roedd Cynllun Gweithredu Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17 yn anelu i 'barhau i ddatblygu a deall, ar y cyd â phartneriaid, anghenion capasiti cartrefi system gyfan y sector annibynnol, a chydweithio â phartneriaid i gefnogi hyfforddiant i ddarparwyr gofal cartref a chartrefi preswyl a nyrsio Yn ôl yr adroddiad ar y CGB, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth gydweithio â phartneriaid i ddatblygu marchnad y sector annibynnol. Yn ei CGB ar gyfer 2017-18, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwmo i ddatblygu cynnig i gomisiynu gofal y tu allan i'r ysbty yn y dyfodol erbyn mis Ebrill 2018, gan gynnwys disgwyliadau clir ynghylch

⁷ Cawsom ymatebion gan y saith bwrdd iechyd a chan Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae Byrddau Iechyd Betsi Cadwaladr a Hywel Dda yn trefnu gwasanaethau cynllunio i ryddhau cleifion ar sail ardal leol neu ddaearyddiaeth, felly mae gennym fwy nag un ffurflen ddata ar gyfer y ddau fwrdd iechyd hyn.

cynllunio'r gweithlu ar gyfer y sector gofal. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gobeithio y bydd hyn yn lleihau'r gwaith sy'n cael ei ail-wneud ar draws sefydliadu comisiynu.

- 27 Ar hyd y blynyddoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau ffrydiau ariannu sy'n anelu i feithrin mwy o gydweithio rhwng gwasanaethau, a'r ddiweddaraf o'r rhain yw'r Gronfa Gofal Integredig (CGI). Cyflwynwyd y CGI yn wreiddiol yn 2014 i gefnogi mentrau i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty, derbyniadau amhrïodol i ofal preswyl, ac oedi wrth ryddhau o'r ysbyty ymhlith pobl hŷn ag anghenion cymhleth. Newidiwyd enw'r gronfa i'r Gronfa Gofal Integredig (CGI) o 1 Ebrill 2017, er mwyn rhoi adlewyrchiad gwell o'i chwmpas ehangach.
- 28 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei bod hi'n anodd sefydlu consensws rhwng yr holl bartneriaid ynghylch yr hyn y dylid gwario'r CGI arno, a hynny oherwydd bod blaenoriaethau pob awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd yn amrywio, gan fod eu hanghenion yn amrywio, a chan eu bod mewn gwahanol gyfnodau yn natblygiad eu cynlluniau eu hunain. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y mae'r Bwrdd Iechyd a'i awdurdodau lleol partner yn aelodau ohono, yn goruchwyllo ac yn cytuno ar y defnydd o'r Gronfa Gofal Integredig Mae hyn wedi bod yn rhan o gylch gorchwyl y Bwrdd ers ei gyfarfod cyntaf ym mis Medi 2016. Dylai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gynnig fforwm effeithiol a chyfle i bartneriaid ddod ynghyd i gydnabod blaenoriaethau cyffredin.
- 29 Roedd staff y buom yn siarad â hwy yn teimlo bod rhai cynlluniau a ariannwyd drwy arian y CGI wedi bod yn fwy llwyddiannus nag eraill. Roedd y staff yn canmol y defnydd o arian y CGI i ariannu swydd swyddog tai o fewn y tîm rhyddhau yn yr ardal ganolog. Yn ogystal â hynny, enillodd y Tîm Rhyddhau'n Gynnar gyda Chefnogaeth ar gyfer Cleifion Strôc, a sefydlwyd yn 2014 yn yr ardal ganolog (ac a ariennir gan y CGI), Seren Betsi yn ddiweddar. Fodd bynnag, teimlai nifer o staff y buom ni yn siarad â hwy y bu natur fyrdymor cyllid y CGI a'r newid yn y cwmpas yn 2016-17 yn wrthgynhyrchiol.
- 30 Ar 22 Rhagfyr 2015, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru £598,000 o gyllid ychwanegol er mwyn ymdrin ag achosion o OwDG sy'n tarddu o drefniadau/asesiadau gofal cymdeithasol, argaeledd cartrefi gofal a'r dewis o gartref gofal. O gofio'r amserlenni tynn ar gyfer cymeradwyo a gwario'r cyllid fyddai'n cael ei ryddhau, cyfeiriodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fuddsoddiadau at gynlluniau a oedd eisoes yn targedu OwDG, a chynlluniau a anelai i osgoi derbyniadau i'r ysbyty ac i gartrefi gofal.
- 31 Yn adroddiad gwerthuso CGI y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2015-16, dywedir bod y Bwrdd yn cydnabod bod angen 'symud y ffocws oddi ar ystyriaeth o "ofal canolraddol" fel ffrwd ariannu ar ei phen ei hun, ac yn lle hynny mae'n gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu adnoddau cadarn a chynaliadwy yn y gymuned.' Mae cynlluniau'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol bellach yn cefnogi gofal canolraddol ar raddfa sirol, ardal a rhanbarthol.

Mae'r polisi a'r protocol rhyddhau yn trafod ystod eang o wybodaeth, ond gellid atgyfnerthu rhai meysydd eto

- 32 Dylid ystyried y broses ryddhau yn rhan o broses ofal ehangach, yn hytrach na'i hystyried fel digwyddiad ynysig ar ddiwedd arhosiad y claf. Dylai sefydliadau'r GIG gael polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer rhyddhau ac/neu drosglwyddo gofal, ac yn ddelfrydol dylid datblygu'r rheiny mewn cydweithrediad â phartneriaid statudol. Yn ogystal â hyn, dylai sefydliadau'r GIG gael polisi i gynnig dewis i'r cleifion hynny y mae angen iddynt symud ymlaen i gartref gofal yn rhan o'u trefniadau gofal parhaus, er y gallai'r dewis fod yn brin mewn sawl ardal.
- 33 Buom yn adolygu polisi a phrotocol rhyddhau'r Bwrdd lechyd drwy ddefnyddio matrices aeddfedrwydd⁸ sy'n asesu ystod o elfennau o fewn y ddogfen. Dyfarnwyd sgôr o un (llai datblygedig) i dri (datblygedig iawn). Yn **Nangosyn 3** gwelir y sgoriau a ddyfarnwyd i bolisi a phrotocol rhyddhau'r Bwrdd lechyd yn erbyn y matrices aeddfedrwydd.

Dangosyn 3: Perfformiad y Bwrdd lechyd yn erbyn rhestr wirio arfer da'r polisi rhyddhau cleifion

Dengys y tabl fod polisi a phrotocol rhyddhau cleifion y Bwrdd lechyd wedi'u datblygu'n dda ar y cyfan, gan sgorio dau neu dri yn erbyn y rhan fwyaf o'r elfennau a aseswyd.

Elfennau a aseswyd	Sgôr	Sylwadau'r archwilydd ynglŷn â'r polisi
Polisi rhyddhau amlasiantaeth	3	Datblygwyd y ddogfen mewn partneriaeth rhwng y Bwrdd lechyd a'r chwe awdurdod lleol (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).
Adolygwyd y polisi o fewn y flwyddyn ddiwethaf	2	Cymeradwywyd ym mis Ionawr 2015. I'w hadolygu ym mis Medi 2018.
Ymwneud â chleifion/gofalwyr	1	Ni cheir tystiolaeth yn y polisi fod cleifion neu ofalwyr wedi cymryd rhan yn y gwaith o'i ddatblygu.
Cyfathrebu	3	Mae'r ddogfen yn pwysleisio pa mor bwysig yw cyfathrebu â'r unigolyn, ei berthnasau a'i ofalwyr, gan gyfleu'n glir y dylid rhoi'r sylw pennaf i gleifion a gofalwyr wrth wneud penderfyniadau.
Gwybodaeth	3	Mae'r ddogfen yn cyfleu'n glir bod yn rhaid darparu gwybodaeth fanwl a chllir i'r claf/i'w berthnasau/i'w gynrychiolydd, a hynny ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae'n rhaid i hyn gynnwys gwybodaeth fel taflen wybodaeth i gleifion, gwybodaeth ysgrifenedig am

⁸ Mae ein matrices aeddfedrwydd yn seiliedig ar yr Offeryn Archwilio Hunanasesu ar gyfer Cynllunio i Ryddhau'n Effeithiol, a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal lechyd yn 2008.

Elfennau a aseswyd	Sgôr	Sylwadau'r archwilydd ynglŷn â'r polisi
		becyn gofal y claf, copi o'r cynllun rhyddhau a chrynodeb ynghylch rhyddhau. Ar y cyfan, mae'r polisi a'r protocol rhyddhau yn trafod yr holl broses ryddhau, gan gynnwys trefniadau cludiant, y defnydd o'r lolfâ ryddhau a'r rheolaeth ar feddyginiaethau. Y mae hefyd yn manylu ar heriau wrth ryddhau, fel yr hyn i'w wneud â chleifion sy'n gwrthod ymgysylltu â'r broses ddewis.
Grwpiau sy'n agored i niwed ee cleifion sy'n ddigartref	3	Mae'r ddogfen yn cynnwys adran sy'n trafod oedolion digartref yn benodol, lle nodir y dylid hysbysu'r awdurdod cyn gynted ag sy'n bosibl ac y dylid atgyfeirio oedolion sy'n agored i niwed i Dîm Gofal Cymdeithasol yr Ysbyty. Nodir hefyd bod y tîm amlddisgyblaeth yn gyfrifol am ystyried priodolrwydd rhyddhau claf i le diogel.
Cynllunio'n fuan i ryddhau yn achos derbyniad dewisol	2	Nodir yn y ddogfen y dylai elfennau allweddol o'r Aseiad Integredig a gwblheir wrth dderbyn y claf fod yn sail i gynlluniau rhyddhau effeithiol.
Pennir amcan o'r dyddiad rhyddhau cyn pen 24 awr ar ôl derbyn y claf.	2	Dywedir yn y ddogfen fod yn rhaid cynnwys amcan o'r dyddiad rhyddhau (ADRh) o fewn y cynllun gofal wrth ryddhau claf, a ddylai gychwyn cyn pen 48 awr ar ôl ei dderbyn.
Osgoi aildderbyn	2	Rhai cyfeiriadau at osgoi aildderbyn cleifion ffisiotherapi a chleifion therapi iaith a lleferydd.
Cytundebau a phrotocolau lleol	3	Mae'r ddogfen yn cynnwys y gweithdrefnau ar gyfer rhyddhau cleifion yn gyflym os oes ganddynt anghenion gofal diwedd oes.
Asesu	3	Mae'r ddogfen yn cyfeirio at Aseiad Integredig, sydd yn cynnwys set ddata graidd y claf, cofnod o'r sgwrs 'beth sy'n bwysig' â'r claf ac unrhyw asesiadau arbenigol (fel gwaith cymdeithasol, nyrso, therapydd).
Rhyddhau o'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys	3	Er nad oes modd cynllunio'n fanwl mewn meysydd fel yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys, mae'r ddogfen yn cydnabod y dylid cadw mor agos ag sy'n bosibl at egwyddorion cyffredinol y polisi rhyddhau.
Rhyddhau i gartref gofal	3	Nodir yn y ddogfen fod yn rhaid hysbysu meddyg teulu arferol neu newydd y claf wrth ei ryddhau i gartref gofal, gan ei bod hi'n ofynnol i'r meddyg teulu gynnal aseiad llawn cyn pen pythefnos ar ôl i'r claf gael ei dderbyn yno.
Cysylltiadau â'r polisi dewis llety	3	Mae'r polisi dewis wedi'i gynnwys yn y polisi a'r protocol rhyddhau o dan Atodiad 1 .

Elfennau a aseswyd	Sgôr	Sylwadau'r archwilydd ynglŷn â'r polisi
Opsiynau gofal	1	Nid yw'r polisi'n cyfeirio at 'opsiynau gofal'.
Prosesau uwchgyfeirio	2	Mae'r polisi'n cynnwys adran benodol ar uwchgyfeirio, lle nodir bod Penaethiaid Adran yn gyfrifol am fonitro unrhyw broblemau. Nodir yn y polisi hefyd fod pedair lefel ar gyfer uwchgyfeirio ac isgyfeirio o fewn y Bwrdd Iechyd, ond ni fanylir ar y broses o fewn y polisi.
Protocolau rhyddhau hygyrch	3	Mae dogfen llwybr drafft 'Passing the Baton' sy'n ategu'r polisi a'r weithdrefn yn cynnwys siart lif hawdd ei deall i gefnogi penderfyniadau ynghylch llwybrau rhyddhau syml neu gymhleth.

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o bolisi rhyddhau cleifion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

- 34 Wrth asesu polisi a phrotocol rhyddhau'r Bwrdd Iechyd, gwelsom fod sgôr lefel 3 wedi'i dyfarnu i ddeg o'r 17 o elfennau, a lefel 1 neu 2 wedi'i dyfarnu i'r gweddill. Ers ein harchwiliad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dweud ei fod wedi dechrau gweithredu mentrau ychwanegol i atgyfnerthu ei brosesau cynllunio i ryddhau, fel y bwndel SAFER a llwybr rhyddhau i asesu. Bydd angen iddo sicrhau bod y mentrau hyn yn cael eu hystyried wrth adolygu'r polisi rhyddhau cleifion. Gallai'r Bwrdd Iechyd hefyd wneud mwy i atgyfnerthu'r polisi a'r protocol rhyddhau mewn rhai meysydd, er enghraifft, drwy gynnwys yr ystod o opsiynau gofal wrth ryddhau claf, mesurau i osgoi aildderbyn ar gyfer ystod ehangach o gleifion, a darparu mwy o fanylion ynghylch uwchgyfeirio pryderon.
- 35 Mae'n gadarnhaol fod partneriaid allweddol wedi cyd-gytuno ar y polisi a'r protocol rhyddhau, yn enwedig gan fod yn rhaid i'r Bwrdd Iechyd gydweithio â chwe awdurdod lleol gwahanol. Mae'r polisi'n cynnwys protocol dewis llety'r Bwrdd Iechyd, graddfeydd amser ar gyfer gweithredu'r polisi a'r protocol rhyddhau, a rolau a chyfrifoldebau gwasanaethau o fewn y broses ryddhau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad o'r polisi dewis llety ar hyn o bryd. Ar y cyfan, mae'r polisi a'r protocol rhyddhau yn trafod yr holl broses ryddhau, gan gynnwys trefniadau cludiant, y defnydd o'r lolfa ryddhau a'r rheolaeth ar feddyginiaethau. Y mae hefyd yn manylu ar heriau wrth ryddhau, fel yr hyn i'w wneud â chleifion sy'n gwrthod ymgysylltu â'r broses ddewis.
- 36 Y rhan o'n gwaith archwilio, buom yn cyfarfod â grŵp o staff ward o bob ysbyty aciwt i siarad am ystod o faterion yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion. Ar y cyfan, roedd y staff y buom yn cyfarfod â hwy yn ymwybodol o'r polisi a'r protocol rhyddhau a'r protocol dewis. Fodd bynnag, clywsom am enghreifftiau lle nad oedd staff yn cadw at y polisi a'r protocol rhyddhau, a bod rhai staff yn dewis cadw cleifion penodol nad oedd ganddynt angen meddygol yn yr ysbyty, am eu bod yn unig, neu am nad oeddent eisiau mynd adref. Dywedai staff ward eu bod hefyd yn anfodlon â'r protocol dewis oherwydd problemau'n gysylltiedig â diffyg dewis neu argaeledd cartrefi gofal a lleoliadau i'r henoed eiddil eu meddwl, a'r amser yr oedd hi'n ei gymryd i ryddhau cleifion neilltuol, ee oherwydd bod angen cwblhau gwaith papur neu drefnu cyfarfodydd amlddisgyblaeth.

- 37 Yn **Atodiad 1** y polisi, nodir protocol dewis llety'r Bwrdd Iechyd. Mae'r protocol dewis yn pwysleisio'r egwyddor na ddylid rhyddhau cleifion o ysbyty aciwt i le parhaol mewn cartref gofal, ac na ddylai staff wthio cleifion i wneud penderfyniad yn gyflym. Gellir cytuno ar drefniadau dros dro sy'n bodloni anghenion y claf ac sy'n atal oedi wrth ei ryddhau. Os bwriedir rhyddhau'r claf i le parhaol mewn cartref gofal, dylai'r cartref gofal fod o fewn pellter rhesymol, gan ystyried y pellter teithio i berthnasau a rhwydweithiau cymorth y claf.
- 38 Mae'r polisi a'r protocol rhyddhau yn gynhwysfawr iawn ac yn trafod yr holl broses ryddhau, gan nodi pryd y dylai gwahanol grwpiau o staff gwblhau camau penodol, a pha wybodaeth y dylid ei rhannu â'r cleifion a'u teuluoedd. Mae'n manylu ar rolau a chyfrifoldebau ystod eang o staff sy'n ymwneud â'r broses ryddhau, gan gynnwys y Tîm Amlddisgyblaeth, nyrsys cyswllt rhyddhau, gweithwyr cymdeithasol a gwasanaethau'r trydydd sector. Ar adeg ein harchwiliad, roedd y Bwrdd Iechyd hefyd wedi datblygu Gweithdrefn Gweithredu Safonol ar gyfer rhawdiau'r Bwrdd. Mae'r weithdrefn yn cynnwys manylion pellach am rolau a chyfrifoldebau holl staff ward sy'n ymwneud â chyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth ar gyfer rhyddhau cleifion, ee metronau, staff nyrsio a meddygon ymgynghorol.

Yn ddiweddar, datblygodd y Bwrdd Iechyd lwybrau yn seiliedig ar arfer da, ond nid ydynt yn cynnwys amryw o elfennau a allai gefnogi cynllunio i ryddhau cleifion

- 39 Dylid ystyried cynllunio i ryddhau o'r ysbyty yn broses barhaus a gynhelir bob dydd o'r wythnos. Er na fydd yr holl staff sy'n ymwneud â chynllunio i ryddhau'r claf ar gael bob amser, dylai'r gwaith cyfathrebu, cynllunio a chydgysylltu barhau. Gall llwybrau rhyddhau diffiniedig sy'n nodi'r gyfres o gamau y mae angen eu cymryd ac amseriad ymyraethau gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd ar gyfer grwpiau diffiniedig o gleifion, yn enwedig rhai ag anghenion cymhleth, fod o gymorth i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n ddiogel a phrydlon.
- 40 Yn rhan o'n gwaith, buom yn edrych ar y prif lwybrau rhyddhau sydd ar waith yn y Bwrdd Iechyd. Aseswyd yr eglurder ynghylch dibenion y llwybrau a'r defnydd ohonynt ar draws y sefydliad, a oedd llwybrau wedi'u datblygu gyda phartneriaid o'r awdurdod lleol, ac a oedd algorithmau, dogfennau safonedig a mesurau ansawdd i gefnogi'r llwybrau hynny.
- 41 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio dau lwybr rhyddhau cyffredinol: syml a chymhleth, fel y manylir arnynt yn y ddogfen *Passing the Baton* y cyfeirir ati ym mholisi rhyddhau'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, pan ofynnwyd i'r byrddau iechyd am nifer y llwybrau sydd ar waith, roedd eu hymateb yn amrywio. Cafwyd ymateb cymysg oddi wrth staff o'r timau ardal ac o'r timau ysbyty ynghylch nifer y llwybrau rhyddhau, ac adlewyrchwyd natur amrywiol yr ymateb hwn yn y ffurflenni data a ddarparwyd gan dri safle ysbyty'r Bwrdd Iechyd. Er enghraifft, rhestrai Ysbyty Maelor dri llwybr cyffredinol: llwybr rhyddhau'n gyflym, llwybr y Swî IV a Llwybr Gofal Lliniarol, ac nid oedd y rhestr yn cynnwys llwybr syml na llwybr cymhleth. Nodai Ysbyty Glan Clwyd ddau llwybr cyffredinol: syml a chymhleth. Yr oedd wyth llwybr ar restr Ysbyty Gwynedd, gan gynnwys llwybrau syml a chymhleth, trosglwyddo i ysbyty cymunedol a throsglwyddiadau y tu allan i'r ardal. Mae nifer yr ymatebion amrywiol i'r cwestiwn hwn yn arwydd o ddiffyg dealltwriaeth gyffredin.

- 42 Mae polisi a phrotocol rhyddhau'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys matrices symlrwydd er mwyn helpu staff i bennu a fydd y broses o ryddhau claf yn cael ei hystyried yn un syml neu gymhleth. Mae'r matrices yn cynnwys chwe datganiad cyffredinol ynghylch amgylchiadau'r claf, ac yn gofyn i'r gweithiwr gofal iechyd nodi a yw'r datganiadau'n wir neu ddim. Os yw nifer fawr o'r datganiadau'n wir, mae hynny'n awgrymu bod y broses ryddhau yn debygol o fod yn syml, a vice versa.
- 43 Aeth y Bwrdd Iechyd ati'n ddiweddar iawn hefyd i ddatblygu'r diagram llwybrau yn rhan o waith parhaus i wella llif cleifion. Yn ogystal â'r llwybrau syml a chymhleth cyffredinol a gydnabyddir ac sydd ar waith yn nau o safleoedd aciwt y Bwrdd Iechyd, mae nifer o lwybrau sy'n ymwneud â chyflyrau penodol, fel y Llwybrau Anadlol a Llwybr Methiant y Galon, hefyd ar waith. Fodd bynnag, mae nifer y llwybrau rhyddhau sy' ymwneud â chyflyrau penodol, a'r graddau y cânt eu gweithredu ar draws yr ardaloedd yn amrywio.
- 44 Buom yn adolygu'r ddau lwybr cyffredinol yn erbyn y meini prawf a nodir yn **Nangosyn 4**. Gwelwyd bod llwybrau rhyddhau'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth hanfodol am y broses ryddhau, ond nad ydynt yn cynnwys nifer o'r elfennau y buom yn eu hasesu.

Dangosyn 4: elfennau a gyflwynir yn llwybrau rhyddhau cyffredinol y Bwrdd Iechyd

Mae'r tabl yn dangos bod llwybrau'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys rhai camau hanfodol yn y broses ryddhau, ond nad yw'n cynnwys nifer o'r elfennau y buom yn eu hasesu.

Elfennau	Llwybr	
	Syml	Cymhleth
Diagram llif/coeden benderfyniadau er mwyn nodi cleifion priodol	Ie	Ie
Cyrchfan rhyddhau penodol ee man preswyllo arferol	Ie	Nage
Pwrpas clir	Ie	Ie
Llwybr cyffredinol neu lwybr ar gyfer cyflwr penodol	Cyffredinol	Cyffredinol
Logisteg trafniadaeth neu drosglwyddo wedi'u cydnabod yn glir	Ie	Ie
Yn berthnasol ar draws yr holl safleoedd ysbyty	Nage	Nage
Yn berthnasol bob awr o'r dydd, bob dydd o'r flwyddyn	Ie	Ie
Wedi'i ddatblygu gyda phartneriaid y GIG, ee BILlau cyfagos, WAST neu Felindre	Ie	Ie
Wedi'i ddatblygu gydag awdurdodau lleol sy'n bartneriaid	Ie	Ie
Wedi'i gefnogi gan ddogfennau rhyddhau cyffredinol	Ie	Ie

Elfennau	Llwybr	
	Syml	Cymhleth
Wedi'i gefnogi gan ddogfennau asesu cyffredinol	Ie	Ie
Mae'r prosesau atgyfeirio yn glir	Nage	Nage
Safonau cytunedig ar gyfer amseroedd ymateb wrth asesu anghenion	Nage	Nage
Safonau cytunedig ar gyfer amseroedd ymateb wrth ddarparu gwasanaethau	Nage	Nage
Safonau cytunedig ar gyfer ansawdd a diogelwch	Nage	Nage
Safonau ar gyfer rhannu gwybodaeth â staff clinigol/gofal yn y gymuned ee, llythyrau rhyddhau	Nage	Nage

Ffynhonnell y Dangosyn: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o lwybrau rhyddhau cleifion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

- 45 Er bod dogfennau llwybrau'r Bwrdd Iechyd yn manylu ar y prosesau y mae angen eu dilyn ar gyfer achosion rhyddhau cleifion syml a chymhleth, nid ydynt yn cynnwys nifer o elfennau a restrir yn y dangosyn uchod. Er enghraifft, er bod y llwybrau'n seiliedig ar arfer da, gan adlewyrchu 'Passing the Baton' (2008), nid yw'n manylu ar unrhyw safonau cytunedig ar gyfer amseroedd ymateb, ansawdd na diogelwch, nac ar gyfer rhannu gwybodaeth. Nid yw'n glir ychwaith a wnaeth partneriaid o'r tu allan i'r awdurdod lleol, fel Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST) neu asiantaethau cymorth y trydydd sector, gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r llwybrau hyn. Er bod polisi a phrotocol rhyddhau'r Bwrdd Iechyd yn pennu'r gweithdrefnau er mwyn cyflymu'r broses o ryddhau cleifion ag anghenion gofal diwedd oes, nid yw'r llwybrau rhyddhau cyffredinol yn tynnu sylw'r staff at y gweithdrefnau hyn. Dyma faes arall i'w datblygu.
- 46 Pan ofynnwyd i'r staff a oedd trefn i beidio rhyddhau cleifion ar ôl amser penodol o'r dydd am ei bod hi'n rhy hwyr i wneud hynny, cawsom amryw o wahanol ymatebion. Ymddengys fod dehongliad gwahanol ysbysai, a wardiau hyd yn oed, o'r polisi yn amrywio. Mae rhai wardiau'n gwrthod rhyddhau cleifion ar ôl 7pm ac eraill yn penderfynu pryd i ryddhau cleifion fesul achos, gan ystyried amgylchiadau'r claf ar ôl iddo gael ei ryddhau, ee a oes gofalwr neu berthynas ar gael i ofalu amdano. Anogir staff ward i ryddhau cleifion yn y bore, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu 'rhaglen yr awr aur' lle bydd pob ward yn rhyddhau cleifion erbyn 11am er mwyn sicrhau bod cleifion adref erbyn amser cinio. Roedd rhai o'r staff y buom yn cwrdd â hwy yn pryderu y gallai hyn annog ymddygiad anffafriol. Er enghraifft, pe bai modd rhyddhau cleifion yn ddiogel y noson gynt, gallai ward aros i ryddhau cleifion y diwrnod canlynol er mwyn dangos eu bod yn llwyddo i ryddhau cleifion yn ystod yr 'awr aur' tra bo claf arall yn disgwyl cael ei dderbyn. Sylwer nad oes gennym dystiolaeth i ddangos bod yr ymddygiad anffafriol hwn yn digwydd ar hyn o bryd.

- 47 Edrychodd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ar ddata amseroedd rhyddhau ym mis Mawrth 2017 Roedd hyn yn cynnwys y categori 'cyn 11am'. Rhwng mis Hydref 2016 a mis Ionawr 2017, dangosai'r data fod rhwng 8 ac 13% o'r cleifion a gafodd eu rhyddhau o holl ysbytai aciwt y Bwrdd Iechyd wedi cael eu rhyddhau cyn 11am. Er nad yw'r papur yn fanwl, mae'n bosibl bod yr achosion hyn yn cynnwys rhyddhau o'r Adran Achosion Brys a'r unedau Asesu Meddygol, yn ogystal â gwelyau cleifion mewnol. Fodd bynnag, mae'r categori hwn yn cynnwys rhyddhau ar unrhyw bryd rhwng hanner nos ac 11am. Dylai'r Bwrdd Iechyd fod yn ystyriol o'r risg nad yw'r data hyn yn ddigon manwl i'w alluogi i ddehongli a yw'r ffigurau'n dangos bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n brydlon (yn gynnar yn y bore, neu gleifion y mae'n briodol iddynt adael yn hwyr gyda'r nos) neu'n cael eu rhyddhau'n amrhiodol yn hwyr gyda'r nos.
- 48 Gwelsom gyfeiriadau ym mhapurau'r Bwrdd sy'n dynodi ei bod hi'n gryn her sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n brydlon ar y penwythnos, pan fydd llai o gleifion cael eu rhyddhau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i sefydlu rhawdiau Bwrdd bob dydd o'r wythnos er mwyn hwyluso rhyddhau cleifion yn ddiogel a phrydlon, ac yn cydnabod y bydd angen iddo gydweithio â phartneriaid allweddol, fel adrannau gwasanaeth cymdeithasol awdurdod lleol, er mwyn rhyddhau mwy o gleifion ar y penwythnos.
- 49 Y dull confensiynol o ryddhau cleifion, yn enwedig henoed bregus, yw cynnal cyfres o asesiadau yn y ward er mwyn canfod pa fath o gymorth y gallai fod arnynt ei angen gartref. Cwblheir yr asesiadau hyn fel arfer ar ôl datgan bod y claf yn 'feddygol' iach i'w ryddhau. Cyn gynted ag y bydd asesiadau wedi'u cwblhau, bydd cleifion wedyn yn cael eu rhyddhau pan fydd yr holl wasanaethau cymorth priodol neu'r holl adnoddau eraill wedi'u trefnu, a allai gymryd cryn dipyn o amser. Gelwir hyn yn llwybr neu'n fodel 'asesu i ryddhau'.
- 50 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn annog llwybr neu fodel 'rhyddhau i asesu'.^{9 10} Drwy'r model hwnnw bydd cleifion yn cael eu rhyddhau adref pan fyddant yn iach yn 'feddygol' i'w rhyddhau, a phan nad oes angen gwely mewn ysbyty arnynt mwyach. Ar y diwrnod rhyddhau, bydd aelodau o'r tîm iechyd a gofal cymdeithasol priodol wedyn yn cynnal asesiad gartref o anghenion cymorth cleifion. Bydd hyn yn galluogi cleifion i dderbyn y lefel gywir o ofal a chymorth gartref mewn amser real, ac yn cael gwared â'r angen i gadw cleifion mewn gwely yn yr ysbyty tra bônt yn aros i asesiadau gael eu cynnal ac i wasanaethau gael eu trefnu.
- 51 Canfu'r Uned Gyflawni mai prin oedd y defnydd o lwybrau 'rhyddhau i asesu', ac argymhellodd y dylai sefydliadau'r GIG eu gweithredu. Gwelsom fod hanner (4 o 8) o sefydliadau'r GIG wedi gweithredu model 'rhyddhau i asesu' er nad oedd y model ond wedi cael ei weithredu ar safleoedd ysbyty penodol mewn rhai sefydliadau.

⁹ Llywodraeth Cymru, Gosod y Cyfeiriad: Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned - Rhaglen Strategol ar Gyfer Cyflenwi, 2010

¹⁰ Llywodraeth Cymru, Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, 2011

- 52 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno egwyddorion 'rhyddhau i asesu' yn flaenorol yn nau o'i safleoedd ysbyty, Ysbyty Clwyd ac Ysbyty Gwynedd, nid yw hynny wedi cael ei weithredu mewn modd cyson ar draws y Bwrdd Iechyd. Yn ei CGB ar gyfer 2017-18, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dweud ei fod yn gweithio tuag at ddatblygu llwybr 'rhyddhau i asesu' ymhellach. Dywedodd bob un o'r tair ardal wrthym mai un o'r heriau wrth weithredu llwybr 'rhyddhau i asesu' oedd capasiti staff, o fewn y Bwrdd Iechyd, ac ymhlith partneriaid allweddol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn anelu i oresgyn yr her hon drwy weithredu Timau Adnoddau Cymunedol (TACau) yn ei holl gymunedau er mwyn cefnogi cynnydd yn nifer yr asesiadau a gynhelir yng nghartrefi cleifion. Roedd y Bwrdd Iechyd yn dal ond megis dechrau'r broses o ddatblygu TACau ar adeg y gwaith maes.

Mae hyder y staff a'r hyfforddiant ar eu cyfer yn anghyson, ac mae adnoddau cynllunio i ryddhau cleifion yn parhau i fod wedi'u cyfyngu i ddydd Llun i ddydd Gwener

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi neilltuo adnoddau ar gyfer rhyddhau cleifion, ond mae'r rhain yn amrywio rhwng gwahanol ardaloedd, ac nid ydynt ond ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener

Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu tri tîm rhyddhau, ond nid yw'r rhain ond ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac mae eu dull o ymarfer yn amrywio rhwng gwahanol ysbytai.


- 53 Tîm cyswllt rhyddhau yw tîm arbenigol sy'n anelu i gefnogi proses trosglwyddo gofal ddiogel a di-dor ar gyfer cleifion sydd yn symud o'r ysbyty i ddarpariaeth gwasanaeth yn y gymuned. Gall y timau hyn fod yn ffynhonnell werthfawr o gefnogaeth a gwybodaeth i staff ward, a chynnig cymorth i hwyluso achosion rhyddhau cymhleth.
- 54 Gofynnwyd am wybodaeth gan bob sefydliad o fewn y GIG ynghylch a ydynt yn gweithredu gwasanaethau cyswllt ar gyfer rhyddhau, ac ynghylch cwmpas y gwasanaethau hynny. Ledled Cymru, gwelsom fod holl sefydliadau'r GIG, ac eithrio Ymddiriedolaeth GIG Felindre, yn darparu un neu fwy o dimau cyswllt ar gyfer rhyddhau. Mae'r holl dimau'n gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod oriau swyddfa yn unig, a'r amser gorffen hwyraf yw 5.30pm. Dywedodd saith o'r 15 o dimau eu bod yn rheoli achosion rhyddhau syml a chymhleth.
- 55 Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu tîm cyswllt ar gyfer rhyddhau (tîm rhyddhau) ym mhob ardal, ac mae'r timau hyn yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod heriau wrth ryddhau cleifion ar y penwythnos yn achosi mwy o straen ar y system, ond nad yw gwasanaethau y mae achosion rhyddhau cymhleth yn ddbynnol arnynt ar gael ar y penwythnos ychwaith. Ar benwythnosau, disgwylir i staff ward hyrwyddo cynlluniau rhyddhau sydd eisoes wedi'u sefydlu, a dylai cynlluniau parhaus i ryddhau cleifion sicrhau bod modd rhyddhau cleifion ar y penwythnos gyda chefnogaeth briodol.
- 56 Yn y gorffennol, mae'r timau rhyddhau wedi tueddu i reoli achosion rhyddhau syml a chymhleth. Fodd bynnag, dywedodd rheolwyr wrthym na ddylai timau rhyddhau ond bod yn gyfrifol am

achosion rhyddhau cymhleth yn unig. Ceir pryder ymhlith ystod o staff (gan gynnwys staff a rheolwyr ward) fod creu swyddi penodol mewn timau rhyddhau wedi lleihau perchnogaeth ar y broses ryddhau, a chyfrifoldeb dros hynny, ymhlith staff ward. Mynegodd yr aelodau hynny o staff bryder nad yw llawer o staff ward yn ystyried bod y broses ryddhau yn rhan o'u cyfrifoldeb, nac yn rhan o'r continwwm gofal, a hynny oherwydd ymdeimlad bod capasiti wedi'i ymestyn i'r eithaf yn wyneb pwysau gweithredol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi nodi bod anawsterau gweithredol yn sgil amryw o swyddi meddygol a nyrsio gwag yn rhannol gyfrifol am y modd y rhennir tasgau ac atebolrwydd.

- 57 Symudwyd y rheolaeth ar dimau rhyddhau o strwythur y Tîm Rheoli Ysbytai i strwythur y Tîm Rheoli Ardal ym mis Awst 2016. Gwnaed hyn er mwyn hwyluso model a oedd yn 'tynnu' i mewn i'r gymuned yn hytrach na 'gwithio' o'r gwasanaethau aciwt, ac er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar y tîm i reoli achosion rhyddhau syml, gyda Metron Ardal/Camu i Lawr yn gyfrifol am reoli'r timau'n weithredol. Roedd barn y staff ynghylch y newid hwn mewn strwythur yn gymysg. Dywedodd rhai aelodau o staff ward fod y newid wedi cynyddu'r pwysau ar gyfarfodydd amlddisgyblaeth ffurfiol, y mae cynrychiolwyr o'r timau rhyddhau yn eu mynychu. Mae hyn yn golygu nad yw'r tîm rhyddhau bob amser yn hygyrch i staff ward, a'r canfyddiad yw bod hynny'n achosi oedi pellach wrth ryddhau cleifion.
- 58 Fel arfer, bydd timau cyswllt rhyddhau yn cynnwys staff nyrsio ond, er mwyn cael rheolaeth well ar achosion rhyddhau cymhleth, dylai'r timau fod yn amlddisgyblaethol. Yn [Nangosyn 5](#) gwelir y gwahanol broffesiynau o fewn timau cyswllt rhyddhau ledled Cymru. Dengys y data fod llai na hanner y timau yn amlddisgyblaethol a'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u harwain gan nyrsys. Mae timau cyswllt rhyddhau yn amrywio o ran maint rhwng dau aelod staff cyfwerth ag amser llawn (CALI) a 29 aelod o staff CALI, gyda'r timau mwy yn gweithio ar draws amryw o safleoedd ysbyty. Roedd y timau'n cynnwys saith aelod CALI o staff ar gyfartaledd.

Dangosyn 5: gwahanol aelodau staff proffesiynol a ddyrannwyd i dimau cyswllt rhyddhau ar 30 Medi 2016

Mae'r siart yn dangos bod timau cyswllt rhyddhau ledled Cymru wedi'u harwain yn bennaf gan nyrsys, ac mai ychydig iawn o dimau amlddisgyblaethol a geir.



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am dimau cyswllt rhyddhau, 2017.¹¹

- 59 Nid yw timau rhyddhau'r Bwrdd Iechyd yn dimau amlddisgyblaeth nac yn dimau amlasiantaeth. Nyrsys cofrestredig yw'r rhan fwyaf o aelodau'r timau. Yn ddiweddar, cytunodd y Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol o ganol ardal y Bwrdd Iechyd i ddefnyddio'r CGI i ariannu swyddog tai o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gefnogi tîm rhyddhau'r ardal ganolog. Bwriedir i'r swyddog tai ymdrin ag achosion cymhleth yn gysylltiedig â materion tai, ac 'addysgu' staff ynghylch y gwasanaethau tai sydd ar gael.
- 60 Cyfanswm cost 13 o'r 15 o dimau cyswllt rhyddhau ledled Cymru oedd £2.9 miliwn, ac roedd costau'r timau unigol yn amrywio rhwng £43,000 a £692,000. Yn y Bwrdd Iechyd, cost timau rhyddhau Ysbyty Maelor, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd oedd £43,005, £168,000 a £207,648 yn y drefn honno, rhwng mis Hydref 2015 a mis Medi 2016. Gellir cymharu hyn â'r gost gyfartalog o £244,000 fesul tîm cyswllt rhyddhau. Sylwn fod y ffigur a ddarparwyd gan Ysbyty Maelor, sef £43,005, yn arbennig o isel o gymharu â'r gost gyfartalog ledled Cymru.
- 61 Oherwydd bylchau yn yr wybodaeth am gostau staffio, gweithgarwch a gwasanaethau, mae'n anodd sefydlu gwerth cymharol am arian y timau cyswllt rhyddhau oddi mewn i sefydliadau'r GIG/ynghwahanol sefydliadau'r GIG. Dim ond pedwar o'r pymtheg tîm cyswllt rhyddhau ar

¹¹ Mae'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru yn gweithredu timau cyswllt rhyddhau. Mae tri bwrdd iechyd – Byrddau Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Hywel Dda a Betsi Cadwaladr – yn gweithredu timau ar wahân ar gyfer pob safle ysbyty. Cawsom 15 o ffurflenni data oddi wrth dimau cyswllt rhyddhau, er nad oedd yr holl ffurflenni data yn gyflawn.

draws Cymru a ddarparodd yr wybodaeth y gwnaethom ofyn amdani. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan y pedwar tîm hwn, buom yn cymharu nifer y cleifion sy'n cael eu rhyddhau â nifer yr aelodau staff CALI. Roedd nifer y cleifion a ryddhawyd, ac a reolwyd drwy'r gwasanaeth, fesul aelod staff CALI rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016 yn amrywio rhwng 50 a 250 o achosion; ar gyfartaledd, roedd 117 o gleifion yn cael eu rhyddhau fesul aelod staff CALI.

- 62 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud llawer o fuddsoddiadau yn ddiweddar er mwyn gwella llif cleifion, gan gynnwys:
- ymrwymiad i recriwtio gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol i wella gwaith integredig rhyngddo ac awdurdodau lleol. Yn 2016-17, sicrhodd y Bwrdd Iechyd gyllid ar gyfer tri gweithiwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol i weithredu ym mhob ardal awdurdod lleol.
 - penodi Rheolwr Llif Cleifion penodol llawn-amser, sydd wedi bod yn ei swydd ers 1 Chwefror 2017;
 - Nyrs Gyswllt Rhyddhau Ardal newydd ei phenodi yn Ysbyty Gwynedd i wella cyfathrebu rhwng ysbytai cymunedol a safleoedd aciwt; a
 - phenodiad diweddar Nyrsys Cyswllt Rhyddhau ar gyfer pob maes clinigol, gydag 85% ohonynt yn eu swydd ers mis Mawrth 2017.
- 63 Ni allai pob un o'r tri thîm rhyddhau ddweud wrthym faint o achosion rhyddhau yr oeddent wedi'u rheoli, neu roedd yr wybodaeth yn ymddangos yn anghredadwy o'i chymharu â thimau eraill. Rhwng 1 Hydref 2015 a 31 Medi 2016, bu'r tîm yn Ysbyty Glan Clwyd, a chanddo 3.8 aelod staff CALI, yn rheoli'r broses o ryddhau 960 o gleifion. Ni allai Ysbyty Gwynedd ddarparu'r data ar gyfer hyn, ac roedd data a ddarparwyd gan Wreccsam Maelor hefyd yn ymddangos yn anghyson â'r data a dderbyniwyd ar draws Cymru.
- 64 Yn Ysbyty Maelor, cafodd gwasanaeth y Nyrs Gyswllt Ardal ei adolygu ym mis Ebrill 2016 yn dilyn ymddeoliad aelod o staff. Yn sgil hynny, trosglwyddodd y Bwrdd Iechyd y swydd i Fand 5, a chyflwynodd swydd weinyddol a chlercol i gefnogi'r Nyrs Gofrestredig. 2015 oedd Y tro diwethaf i'r tîm rhyddhau yn Ysbyty Glan Clwyd gael ei adolygu, ac nid oes unrhyw gynlluniau i ailddylunio'r gwasanaeth yn dilyn adolygiad yr Uned Gyflawni. Nid yw'r gwasanaeth wedi cael ei adolygu yn Ysbyty Gwynedd, ond mae cynlluniau wedi'u sefydlu i adolygu'r broses yn y dyfodol.
- 65 Gofynnwyd i dimau cyswllt rhyddhau ddisgrifio pa mor aml yr oeddent yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi cynlluniau rhyddhau. Mae **Atodiad 4** yn dangos y graddau y mae timau cyswllt rhyddhau yn cyflawni ystod o weithgareddau ledled Cymru, o gyflawni'r gweithgareddau hynny bob amser hyd at beidio byth â'u cyflawni. Bydd tri thîm rhyddhau'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni'r canlynol bob amser neu'n aml:
- cynorthwyo staff i adnabod cleifion bregus a allai wynebu oedi wrth gael eu rhyddhau;
 - sicrhau bod cynlluniau rhyddhau unigol wedi'u sefydlu i gleifion ag anghenion cymhleth wrth eu rhyddhau; a
 - chynnig un man cyswllt i ymarferwyr Iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y broses o gynllunio i ryddhau.
- 66 Roedd rhai ardaloedd o fewn y Bwrdd Iechyd weithiau'n allanolion. Er enghraifft, er bod Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd yn dweud bod eu timau 'bob amser' yn dilysu data ar achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i reolwyr gwely ynghylch rhyddhau cleifion o'r ysbyty, a'u bod 'weithiau'n cydweithio â rheolwyr gweithredol i ddatblygu

mesurau perfformiad ar gyfer rhyddhau cleifion o ysbytai, dywedodd Ysbyty Maelor nad oedd eu tîm 'fyth' yn cyflawni'r gweithgareddau hynny.

- 67 Wrth gymharu ymateb y Bwrdd Iechyd â'r ymateb i dimau rhyddhau ledled Cymru, fel y dangosir yn **Atodiad 4**, gwelwom fod amryw o agweddau yn debyg ac yn wahanol. Er enghraifft, atebodd tri safle ysbyty'r Bwrdd Iechyd yn debyg i'r atebion Cymru gyfan, o ran eu bod 'bob amser' neu 'yn aml' yn cynorthwyo staff i adnabod cleifion bregus a allai wynebu oedi wrth gael eu rhyddhau. Hefyd, rhoddodd y tri safle ysbyty ateb cymysg tebyg i atebion Cymru gyfan wrth nodi eu bod 'weithiau' neu 'yn anaml' yn darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff clinigol er mwyn rhyddhau cleifion yn brydlon. Fodd bynnag, er bod timau rhyddhau ledled Cymru fel arfer yn rhoi ateb 'bob amser', 'yn aml' neu 'weithiau' ar ôl gofyn a oedd eu timau'n cyfeirio cleifion a'u teuluoedd i dderbyn cyngor a chefnogaeth er mwyn parhau i fyw'n annibynnol gartref, nododd un o safleoedd ysbyty BIP Betsi Cadwaladr mai 'anaml' y byddai ei dîm yn gwneud hynny, a nododd y ddwy ardal arall na fyddai hynny 'fyth' yn digwydd.

Er bod pob YCD yn gweithredu lolfa ryddhau, mae argaeledd a chynhyrchiant y lolfeydd hynny'n amrywio.


- 68 Gall lolfa ryddhau gefnogi cynlluniau rhyddhau effeithiol a llif cleifion drwy ryddhau gwelyau'n brydlon i gleifion eraill sy'n cael eu derbyn. Mae lolfeydd rhyddhau yn cynnig lle addas i gleifion aros i berthnasau neu drafnidiaeth yr ysbyty eu casglu, neu i aros am ddsbarthu eu meddyginiaeth.
- 69 Holwyd sefydliadau'r GIG ynghylch eu cyfleusterau o ran lolfeydd rhyddhau. Ar draws Cymru, gwelwom fod pob bwrdd iechyd, ar wahân i Bowys, yn gweithredu lolfeydd rhyddhau yn eu hysbytai aciwt. Ar adeg ein gwaith archwilio, roedd gan y lolfeydd rhyddhau y capasiti i gefnogi 192 o gleifion oedd yn disgwyl cael eu rhyddhau ar unrhyw bryd; capasiti cyfartalog pob lolfa oedd 11. Ar draws Cymru, mae lolfeydd rhyddhau ar agor am 8 i 12 awr o ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig, ac mae nyrsys cofrestredig a gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gweithio ynddynt fel arfer. Ceir hefyd gyfleusterau bwyd a thoiledau i'r cleifion.
- 70 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu lolfeydd ryddhau yn ei dri YCD o ddydd Llun i ddydd Gwener yn unig, ac mae capasiti ac oriau agor y lolfeydd hynny'n amrywio:
- Mae lolfa Ysbyty Maelor ar agor rhwng 9.00am a 5.00pm, a gall gynnwys 15 o gleifion;
 - mae Ysbyty Glan Clwyd ar agor rhwng 8.30am a 6.00pm, a gall gynnwys 18 o gleifion; ac
 - mae Ysbyty Gwynedd ar agor rhwng 8.00am a 7.00pm ac nid yw ond yn gallu cynnwys naw o gleifion.
- 71 Bydd safleoedd aciwt yn defnyddio lolfeydd ar gyfer cleifion sydd yn bodloni meini prawf penodol, a bydd gweithwyr gofal iechyd a nyrsys hyfforddedig yn gweithio yn y lolfeydd hynny. Dywedodd staff wrthym fod rhai ysbytai yn gwneud gwell defnydd o'r lolfa ryddhau nag ysbytai eraill. Er enghraifft, nid yw Ysbyty Gwynedd yn gwneud cymaint o ddefnydd o'i lolfa ryddhau ag y dymunai oherwydd ei faint, ac roedd y lolfa ryddhau yn Ysbyty Glan Clwyd yn cael ei hailddatblygu ar adeg ein gwaith maes, yn rhan o waith ehangach yn gysylltiedig â'r rhaglen gyfalaf i ailddatblygu holl safle'r ysbyty. Unwaith eto, mae'n bosib bod y ffaith nad yw lolfeydd rhyddhau ar agor ar y penwythnos yn creu mwy o straen ar argaeledd gwelyau ar y wardiau.

- 72 Rhwng mis Hydref 2015 a mis Medi 2016, cafodd 4,147 o gleifion eu rheoli drwy'r lolfa ryddhau yn Ysbyty Gwynedd a 4,997 o gleifion eu rheoli drwy'r lolfa ryddhau yn Ysbyty Glan Clwyd. Er gwaethaf ei faint, mae lolfa ryddhau Ysbyty Gwynedd yn cefnogi 16 o gleifion bob dydd ar gyfartaledd, o gymharu ag 19 o gleifion bob dydd yn Ysbyty Glan Clwyd. Nid oedd Ysbyty Maelor yn gallu darparu'r ffigur ar gyfer y lolfa ryddhau ar y safle hwnnw. Dywedodd y staff y buom yn siarad â hwy wrthym fod rheolwyr sy'n gyfrifol am lolfeydd rhyddhau yn mynychu cyfarfodydd gwelyau yr ysbyty yn rheolaidd er mwyn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o'r cyfleuster.
- 73 Gofynnwyd hefyd am wybodaeth ynghylch trefniadau staffio, costau a gweithgarwch y lolfeydd rhyddhau. Roedd yr wybodaeth hon yn fwy cyflawn na'r wybodaeth ar gyfer y timau cyswllt rhyddhau. Mae nifer y staff a ddefnyddir ar draws lolfeydd rhyddhau ysbytai yn amrywio rhwng llai nag un aelod staff CALI a phum aelod staff CALI; y cyfartaledd oedd tri aelod staff CALI. Cyfanswm cost 12 o'r 14 o lolfeydd rhyddhau ledled Cymru oedd £1 miliwn, ac roedd costau gwasanaethau unigol yn amrywio rhwng £25,000 a £139,000. £86,000 oedd y gost gyfartalog fesul lolfa ryddhau.
- 74 Yn y Bwrdd Iechyd, roedd gwasanaeth y lolfa ryddhau yn costio £113,902 yn Ysbyty Maelor, £72,986 yn Ysbyty Glan Clwyd a £129,098 yn Ysbyty Gwynedd. Y gost am bob claf sy'n cael ei ryddhau yw £26 yn Ysbyty Glan Clwyd ac £18 yn Ysbyty Gwynedd, a gellir cymharu hyn â chyfartaledd Cymru gyfan o £28 am bob claf sy'n cael ei ryddhau. Ni chawsom ddata i gyfrifo'r ffigur ar gyfer Ysbyty Maelor. (Dangosyn 6).

Dangosyn 6: cymhariaeth o'r gost am bob claf a ryddhawyd ac a reolwyd gan lolfeydd rhyddhau unigol rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016.

Dengys y siart fod y gost am bob claf a ryddhawyd, ac a reolwyd drwy'r lolfa ryddhau, yn amrywio rhwng £12 a £74 fesul achos o ryddhau.

Lolfa rhyddhau o'r ysbyty



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am lolfeydd rhyddhau ysbyty, 2017¹²


- 75 Buom hefyd yn cymharu nifer y cleifion a gafodd eu rhyddhau, ac a gefnogwyd drwy'r lolfeydd rhyddhau, â nifer yr aelodau staff CALI. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd gan wyth o'r 14 o lolfeydd rhyddhau, roedd nifer y cleifion a ryddhawyd fesul aelod staff CALI yn amrywio rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016, o ychydig llai na 400 fesul aelod staff CALI hyd at ychydig dros 2000 fesul aelod staff CALI (**Dangosyn 9**). Yn y Bwrdd Iechyd, roedd Ysbyty Glan Clwyd yn cefnogi'r broses o ryddhau 1,249 o gleifion fesul aelod staff CALI ac Ysbyty Gwynedd yn cefnogi'r nifer fwyaf o gleifion oedd yn cael eu rhyddhau fesul aelod staff CALI, sef 2,074. Ni chawsom y data hyn oddi wrth Ysbyty Maelor.

¹²Cawsom wybodaeth oddi wrth 14 o lolfeydd rhyddhau, ond dim ond 8 ffurflen a ddychwelwyd oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i gymharu'r gost fesul claf a ryddhawyd o'r lolfa ryddhau.

Dangosyn 7: nifer y cleifion a ryddhawyd fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn (CALI), ac a gefnogwyd drwy lolfeydd rhyddhau ysbytai rhwng 1 Hydref 2015 a 30 Medi 2016

Mae'r siart yn dangos bod nifer y cleifion a ryddhawyd fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn yn amrywio ar draws lolfeydd rhyddhau ysbytai, o ychydig llai na 400 fesul aelod staff CALI hyd at ychydig dros 2000 fesul aelod staff CALI.

Lolfa rhyddhau o'r ysbyty



Nifer yr achosion o ryddhau a gefnogir fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth a gasglwyd am lolfeydd rhyddhau ysbyty, 2017

Bu hyfforddiant i'r staff yn wael yn y gorffennol, ac nid yw ymwybyddiaeth y staff o bolisiâu, llwybrau na gwasanaethau cymunedol, na'u hyder ynddynt, yn gyson.

- 76 At ei gilydd, tîm y ward sy'n gyfrifol am asesu cleifion a chynllunio i'w rhyddhau. Dylai staff y ward gymryd rhan yn y broses cynllunio i ryddhau a'i hystyried yn rhan o'r continwwm gofal, a dylid dwyn staff ward a rheolwyr gweithredol i gyfrif am gynllunio i ryddhau cleifion yn effeithiol. I ategu hyn dylid sicrhau ymwybyddiaeth glir o bolisiâu a llwybrau, mynediad at lefelau hyfforddi priodol, ac ymwybyddiaeth dda o'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i gefnogi prosesau rhyddhau.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i fynd i'r afael â diffyg mynediad at hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau, a chydymffurfiaeth â'r gofynion ar gyfer hynny.

- 77 Dylai staff rheng flaen dderbyn hyfforddiant rheolaidd sy'n briodol i'w rôl yn y broses ryddhau. Dylai'r hyfforddiant hwn fod yn rhan o raglenni ymsefydlu, ac o ddiweddariadau rheolaidd ar bynciau penodol, yn enwedig pan fydd polisïau cysylltiedig yn ddibynnol ar asesu a chynllunio gofal. Yn ddelfrydol, darperir hyfforddiant ar sail aml-asiantaeth ac/neu ar sail aml-broffesiwn er mwyn sicrhau bod cynllunio i ryddhau cleifion yn fusnes i bawb.
- 78 Yn **Nangosyn 8** gwelir mai ond hanner sefydliadau'r GIG ledled Cymru sy'n cynnwys cynlluniau rhyddhau mewn rhaglenni ymsefydlu nyrsys, ac sydd yn cynnig hyfforddiant gloywi rheolaidd. Yn y Bwrdd Iechyd, dywedodd staff ward wrthym nad oedd hyfforddiant ar ryddhau yn gyson. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datgan yn yr wybodaeth a gyflwynodd i ni ei fod yn darparu hyfforddiant yn rhan o'r broses o ymsefydlu dechreuwy'r newydd, ac eithrio staff meddygol. Fodd bynnag, nid oed staff ward yn un o safleoedd ysbyty'r Bwrdd Iechyd yn cytuno â hyn, gan ddweud na chafwyd hyfforddiant yn y maes hwn ers sawl blwyddyn. Dywedodd dau safle ysbyty o fewn ardal y Bwrdd Iechyd wrthym fod hyfforddiant gloywi ar gael i'r holl staff, ac eithrio'r staff meddygol unwaith eto.

Dangosyn 8: argaeledd hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion ar gyfer staff nyrsio

Dengys y tabl pa sefydliadau yn y GIG sydd yn darparu hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o raglenni ymsefydlu nyrsys, ac a ddarperir hyfforddiant gloywi rheolaidd i'r staff nyrsio.

Sefydliad y GIG	Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion wedi'i gynnwys mewn rhaglenni ymsefydlu nyrsys ar gyfer dechreuwy'r newydd	Hyfforddiant gloywi ar gynllunio i ryddhau cleifion wedi'i ddarparu'n rheolaidd i staff nyrsio ¹
Abertawe Bro Morgannwg	le	Nage
Aneurin Bevan	Nage	Nage
Betsi Cadwaladr		
• Wrecsam Maelor	le	le
• Glan Clwyd	le	Nage
• Ysbyty Gwynedd	le	le
Caerdydd a'r Fro	Nage	le
Cwm Taf	Nage	le
Hywel Dda (timau sirol)		
• Sir Benfro	le	Nage
• Ceredigion	Nage	Nage
• Sir Gaerfyrddin	Nage	Nage

Sefydliad y GIG	Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion wedi'i gynnwys mewn rhaglenni ymsefydlu nyrsys ar gyfer dechreuwyr newydd	Hyfforddiant gloywi ar gynllunio i ryddhau cleifion wedi'i ddarparu'n rheolaidd i staff nyrsio ¹
Powys	Nage	Nage
Felindre	le	le
¹ Hyfforddiant gloywi wedi'i ddarparu o leiaf bob blwyddyn, neu ddwywaith y flwyddyn i'r staff nyrsio		

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrrff y GIG yn 2017 ([Gweler Troednodyn 9](#))

- 79 Yn y polisi a'r protocol rhyddhau, nodir y bydd y Bwrdd Iechyd yn trefnu hyfforddiant amlasiantaeth ac amlddisgyblaeth ar y polisi. Er bod rhai'n nodi bod staff wedi'u recriwtio o wledydd tramor wedi derbyn hyfforddiant ar drefniadau cynllunio i ryddhau, ni allai mwyafrif y staff ward y buom ni yn siarad â hwy gofio unrhyw hyfforddiant Cynllunio i ryddhau cleifion a oedd yn trafod y polisi'n benodol ers i'r Bwrdd Iechyd eu penodi. Dyma golli cyfle o safbwynt y Bwrdd Iechyd.
- 80 Dywedodd dau safle ysbyty wrthym fod y Bwrdd Iechyd wedi darparu peth hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau, gan gynnwys y 'Sgwrs Beth sy'n Bwysig'¹³, ond nad oedd yr hyfforddiant hwnnw'n orfodol i'r holl staff ward. Wrth ddefnyddio'r sgwrs 'Beth sy'n Bwysig', dywedodd sawl aelod o staff ward wrthym mai unig bwrpas y sgwrs oedd cyfeirio cleifion i'r gwasanaethau cymdeithasol, neu mai ond wrth dderbyn y claf fyddai'r sgwrs yn digwydd, ac na fyddai'r sgwrs yn cael ei diweddarau wedyn.
- 81 Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn mesur y graddau y cydymffurfir â'r polisi rhyddhau na'r polisi dewis ar hyn o bryd, ac roedd yn cydnabod nad oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y staff yn gweithredu'r naill a'r llall mewn modd cyson. Mae Adran Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd ar ganol sefydlu Archwiliadau o'r Polisi Rhyddhau, fydd yn manylu ar y sawl sy'n gyfrifol am gwblhau'r archwiliadau hyn, a'u mynychder. Bydd archwilio o bolisi rhyddhau'r Bwrdd Iechyd yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall y Bwrdd Iechyd ddeall a yw staff yn gweithredu'r gwelliannau y mae'n ceisio eu cyflwyno mewn cyson ar draws pob un o'i ardaloedd. Bydd angen cynnal yr archwiliadau hyn yn ddigon aml fel bod staff ar draws y Bwrdd Iechyd yn ymwreiddio gwelliannau yn rhan o ymarfer cyffredin.
- 82 Mae'r Bwrdd Iechyd yn mesur y graddau y cydymffurfir â'r 'Sgwrs Beth sy'n Bwysig', ac yn cydnabod y bu'r canlyniadau hynny'n wael. Ym mis Mai 2017, roedd gan 51% o'r holl gleifion ar wardiau Ysbyty Maelor 'Sgwrs Beth sy'n Bwysig' wedi'i recordio. Y ffigur cyfatebol yn Ysbyty Gwynedd oedd 55%, a'r ffigur cyfatebol yn Ysbyty Glan Clwyd oedd 66.4%.

¹³Sgwrs 'Beth Sy'n Bwysig' yw'r sgwrs a gynhelir rhwng staff ward a chlaf. Nod y sgwrs yw deall pa faterion sydd bwysicaf o safbwynt llesiant y claf. Fe'i cofnodir ar bapur gan staff y ward. Yn ôl arfer da, dylid cynnal y sgwrs wrth dderbyn y claf a rhoi'r newyddion diweddaraf iddo drwy gydol ei arhosiad. Gellir ei ddefnyddio i gyfeirio claf i wasanaeth arall fel y gwasanaethau cymdeithasol.

83 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad yw hyd yma wedi gweithredu'r 'Sgwrs Beth sy'n Bwysig' na 'Passing the Baton' mewn modd cyson, nac wedi darparu digon o hyfforddiant a phwyslais ar yr elfennau hynny. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynyddu'r graddau y cydymffurfir â'r 'Sgwrs Beth sy'n Bwysig' drwy ddarparu hyfforddiant manwl gorfodol yn ystod 2017. Ar adeg y gwaith maes, datblygodd Cydweithredaeth Gogledd Cymru ar gyfer Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru ganllaw cof drafft ar y 'Sgwrs Beth sy'n Bwysig' i gefnogi'r hyfforddiant hwn.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i gynyddu ei ddealltwriaeth o sawl ffactor mewnol ac allanol sy'n ei atal rhag rhyddhau cleifion yn brydlon, a'i ymateb i'r ffactorau hynny. Fodd bynnag, nid oes gan rai aelodau o staff yr hyder i gynnal sgysiau anodd â'r claf ynghylch rhyddhau

84 Yn ei adolygiad, gwelodd yr Uned Gyflawni ddiwylliant ledled Cymru lle'r oedd pobl yn gyndyn o gymryd risg, lle'r oedd y staff yn siarad yn agored am ddiwylliant 'cwtsh'¹⁴ a'r ffaith nad oedd digon o amser yn cael ei neilltuo i reoli'r broses ryddhau. Yn ystod ein gwaith maes, dywedodd staff wrthym eu bod yn parhau i'w chael hi'n anodd cael amser i reoli'r broses ryddhau, ac mae rhai'n teimlo'n anghyffyrddus yn trafod y broses ei hun â chleifion. Mae'n debygol y gellid rhyddhau rhai cleifion ynghynt pe bai gan fwy o staff hyder, a phe baent yn adnabod y risgiau'n gysylltiedig â chadw cleifion yn yr ysbyty yn am gyfnod hwy nag sydd angen.

85 Cyfeiriodd Tîm Gweithredol y Bwrdd Iechyd at ddiwylliant a hyder y staff fel un o'i heriau mwyaf. Mae'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i godi ymwybyddiaeth ymhlith y staff ynghylch yr hyn y gall pobl ei wneud gartref, i'w hannog i boeni llai am risg a chymryd amser i ddeall yr hyn sy'n bwysig i gleifion. Fodd bynnag, mae staff yn parhau i bryderu y byddant yn gwneud y penderfyniad anghywir, ac mae rheolwyr Y Bwrdd Iechyd yn cydnabod y gallai fod arnynt angen cymorth a hyfforddiant pellach er mwyn datrys hyn. Dywedodd staff wrthym hefyd fod pwysau wrth y drws blaen yn aml yn gwneud iddynt deimlo bod yn rhaid canolbwyntio ar symud cleifion drwy'r drws ynghynt, yn hytrach na gwella ansawdd y broses ryddhau.

86 Yn rhan o'n gwaith maes, buom yn cyfarfod â Chyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru (CICGC), sy'n trafod holl ardal y Bwrdd Iechyd. Cododd cynrychiolwyr o CICGC sawl pryder ynghylch y modd y mae staff ward y Bwrdd Iechyd yn gweithredu'r broses cynllunio i ryddhau cleifion. Mae CICGC wedi derbyn sawl cwyn a mynegiant o bryder dros y tair blynedd diwethaf yn gysylltiedig â'r broses ryddhau, gan gynnwys achosion o ryddhau'n amhriodol, rhyddhau i leoliadau amhriodol, a diffyg gwybodaeth i'r claf ac/neu e deulu ynghylch y broses ryddhau.

87 Canfu'r Uned Gyflawni nad oedd rhyw lawer o dystiolaeth yng nghofnodion cleifion bod staff wedi trafod disgywiadau rhyddhau gyda'r cleifion. Yn ddiweddar, bu staff Ysbyty Maelor yn adolygu taflen wybodaeth i gleifion y Bwrdd Iechyd. Roedd y daflen wybodaeth flaenorol yn hir, ond dywedodd staff wrthym nad oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth yr oedd ar gleifion ei hangen. Nid oedd CiCGC yn ymwybodol o fodolaeth y daflen wybodaeth i gleifion ynghylch cynllunio i'w rhyddhau.

Disgrifiodd yr Uned Gyflawni ddiwylliant cwtsh lle'r oedd rhai aelodau staff yn amharod i ryddhau cleifion i'w cartrefi eu hunain, oherwydd eu bod yn tybio y gallai hynny achosi risg i'r cleifion. Er mai caredigrwydd sydd wrth wraidd hyn, mae'n bosib nad yw'r staff yn gweithredu er budd pennaf y cleifion.

- 88 Yn sgil yr adolygiad diweddar o'r daflen wybodaeth i gleifion, mae dwy daflen fer ar wahân wedi cael eu datblygu, a buom yn adolygu'r rhain yn ystod ein gwaith maes. Mae'r gyntaf yn manylu ar ADRh y claf, ac yn esbonio'r broses ryddhau. Mae'r ail yn cynnwys gwybodaeth am aelodau o staff y bydd y claf wedi rhyngweithio â hwy yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty, yn ogystal â threfniadau gofal pellach fel apwyntiadau dilynol, a oes angen i'r claf gysylltu â'i feddyg teulu a gwybodaeth fanwl am y drefn gwynion. Mae'r taflenni hyn yn cael eu treialu ar hyn o bryd yn Ysbyty Maelor yn unig ac, yn amodol ar ganlyniadau gweddill y peilot, mae'n bosib y byddant yn cael eu defnyddio ar draws ardal y Bwrdd Iechyd. Mae gan y Bwrdd Iechyd hefyd gynlluniau i ddatblygu'r defnydd o 'Fy Iechyd Ar-lein' ymhellach, fydd yn galluogi cleifion i gael mynediad at wybodaeth a chynghor ynghylch rhyddhau.
- 89 Yn dilyn adolygiad yr Uned Gyflawni, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd sawl gweithdy ar draws ei thair ardal er mwyn addysgu'r staff ynglŷn â'r canfyddiadau. Yn dilyn y gweithdai hyn, sefydlodd y Bwrdd Iechyd grŵp rhaglen rhyddhau cleifion, sy'n goruchwyllo dau gynllun prosiect ar gyfer pob ardal; y naill ar gyfer yr ysbyty aciwt a'r llall ar gyfer yr ardal. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob deufis ac yn darparu gwybodaeth i'r Grŵp Trawsnewid Strategol i fonitro cynnydd. Adeiladodd yr ymarfer 'pum diwrnod mewn ystafell' ar yr adolygiad hwn a chynhyrchu camau ychwanegol i'w cynnwys yng nghynllun gweithredu Uned Gyflawni'r Bwrdd Iechyd. Gall y Bwrdd Iechyd eisoes ddangos ei fod wedi cwblhau rhai o'r camau gweithredu yn dilyn yr adolygiadau hynny, gan gynnwys:
- ymgyrch i gysoni rhawdiau a chyfarfodydd y Bwrdd i graffu ar OwDG ar draws y Bwrdd Iechyd;
 - cynlluniau i wneud yr hyfforddiant ar y 'Sgwrs Beth sy'n Bwysig' yn orfodol i'r staff;
 - dechreuodd Ysbyty Gwynedd wahodd metronau i gymryd rhan yn rheolaidd yn rhawdiau'r Bwrdd, gan anelu i gynyddu eu hymdeimlad o berchnogaeth dros gleifion sy'n wynebu oedi; ac
 - mae Ysbyty Glan Clwyd wedi gweithio ar ei brosesau uwchgyfeirio, ac mae'r rheolwyr bellach yn derbyn negeseuon e-bost oddi wrth feddygon ymgynghorol i amlygu cleifion y gallai eu hachos fod yn fwy cymhleth.
- 90 Nid oedd y Bwrdd Iechyd ond newydd weithredu'r camau hyn ar adeg ein gwaith maes, felly mae'n rhy fuan i gyflwyno sylwadau ynghylch eu heffaith. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan y Bwrdd Iechyd lawer o waith i'w wneud er mwyn ymwreiddio'r newidiadau hyn. Dangosai archwiliad o rawdiau'r Bwrdd yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod mis Ionawr 2017 mai ychydig iawn o gydymffurfio neu gysondeb a gafwyd wrth gynnal rhawdiau'r bwrdd ar ei wardiau. Ystyriai'r archwiliad agweddau fel a oedd nod rhawd y bwrdd ¹⁵ yn glir, a oedd yr holl ddisgyblaethau presennol yn bresennol ar y rhawd, ac a oedd ADRh wedi'i gofnodi ar gyfer pob claf. Fel cyfanswm, dyfarnwyd sgôr coch i saith o'r 18 o wardiau yn yr ysbyty, yn unol â'r raddfa CAG, yn erbyn y meini prawf asesu ar gyfer archwilio. Dyfarnwyd sgôr ambr i saith ward arall, a dim ond pedair ward a enillodd sgôr gwyrdd. Yn nodedig, dyfarnwyd sgôr coch i 17 o'r 18 o wardiau yn erbyn y mesuriad 'Sail resymegol dros OwDG yn glir', tra dyfarnwyd sgôr coch i ddeg ward yn erbyn y mesuriad 'cofnodir ADRh ar gyfer pob claf.' Dengys hyn fod gan yr ysbyty

¹⁵Rhawd y Bwrdd yw adolygiad gan staff ward o gleifion ar ward, a gall gynnwys amrywiaeth o staff fel ymgynghorwyr, staff therapïau a chydgyssylltwyr rhyddhau

lawer o waith i'w wneud i wella'r graddau y mae'n cydymffurfio â'i brosesau a'i weithdrefnau rhyddhau.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i ddatblygu modelau i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau cymunedol, ond ceir prinder dealltwriaeth ymhlith y staff.

91 Mae cael dealltwriaeth dda o ystod a chapasiti gwasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol yn elfen bwysig wrth sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n brydlon. Dylai cyrff iechyd ddal gwybodaeth gyfredol am y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael a all helpu cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Gall y gwasanaethau hyn fod ar gael drwy sefydliadau'r GIG, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector. Gofynnwyd i gyrff iechyd pa fathau o wybodaeth yr oeddent yn ei chasglu am wasanaethau cymunedol. **Yn Nangosyn 9** gwelir mai ychydig o sefydliadau sy'n casglu gwybodaeth am wasanaethau cymunedol a ddarperir gan sefydliadau eraill y GIG ac opsiynau tai. Mae'r nifer sy'n casglu gwybodaeth am amseroedd aros ar gyfer asesu anghenion ac amseroedd aros cyn i wasanaethau gychwyn hefyd yn gymharol brin,

Dangosyn 9: nifer y cyrff iechyd a adroddodd eu bod yn casglu ystod o wybodaeth am wasanaethau cymunedol

	Ystod y gwasanaethau	Argaeledd gwasanaethau	Meini Prawf Cymhwyst-ra	Y broses atgyfeiri o	Amser aros ar gyfer asesiad anghenion	Amser aros i wasanaethau gychwyn
Gwasanaethau cymunedol y Bwrdd Iechyd/yr Ymddiriedolaeth ei hun	8	8	9	9	4	4
Gwasanaethau cymunedol a ddarperir gan gyrff eraill y GIG	3	3	3	3	2	2
Gwasanaethau gofal cymdeithasol	9	9	9	10	6	3
Y Trydydd Sector	10	8	10	8	3	2
Opsiynau tai	4	2	4	6	2	2
Y Sector annibynnol ee gwelyau mewn cartrefi gofal	7	6	9	9	2	2

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 (**Gweler Troednodyn 9**)

- 92 O fewn y Bwrdd Iechyd, mae'r ymatebion a gyflwynwyd yn dangos sefyllfa anghyson dros ben. Cyflwynodd y tri safle ysbyty wahanol atebion ar gyfer y math o wybodaeth a gesglir gan y Bwrdd Iechyd am wasanaethau cymunedol, pa mor aml y cesglir gwybodaeth, a lle caiff gwybodaeth ei storio.
- 93 Darparodd dau o'r tri safle ysbyty, Ysbyty Maelor ac Ysbyty Gwynedd, sgoriau ar gyfer yr wybodaeth a gesglir gan y Bwrdd Iechyd. Darparodd y ddau safle hyn sgoriau cadarnhaol a ddangosai fod y Bwrdd Iechyd yn casglu gwybodaeth gan gynnwys yr amrywiaeth o wasanaethau, y meini prawf cymhwysra ar gyfer gwasanaethau, a'r broses atgyfeirio. Nid oedd gwybodaeth yn cael ei chasglu mewn rhai meysydd, fel yr amcangyfrif ar gyfer dechrau darparu gwasanaethau, a'r amcangyfrif o'r amser aros ar gyfer asesiad o anghenion. Ni ddarparodd Ysbyty Glan Clwyd yr wybodaeth hon.
- 94 Atebodd bob un o'r tri safle ysbyty 'ddim yn gwybod' pan ofynnwyd pa mor aml yr oedd gwybodaeth yn cael ei chasglu am wasanaethau yn y gymuned nad ydynt yn cael eu darparu gan y Bwrdd Iechyd. Nododd Ysbyty Glan Clwyd fod pob sefydliad yn gyfrifol am gadw eu gwybodaeth am wasanaethau yn gyfredol, a bod Dewis Cymru yn casglu gwybodaeth ar draws sefydliadau (hy, awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd). Fodd bynnag, roedd yr wybodaeth a ddarparwyd gan y ddau safle arall yn wahanol. Dywedodd Ysbyty Maelor mai'r tîm ardal sy'n gyfrifol am gasglu gwybodaeth mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Nododd Ysbyty Gwynedd fod gan bob sefydliad ran i'w chwarae er mwyn casglu eu gwybodaeth eu hunain, ac mae'r ysbyty wedi llunio taflen Cyfeiriadur Rhyddhau sydd yn cynnwys y gwasanaethau yn ei ardal. O edrych ar yr ymatebion cymysg hyn, efallai nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau.
- 95 Gofynnwyd i staff ward faint yr oeddent yn ei wybod am yr ystod o wasanaethau cymunedol i gefnogi cleifion wrth eu rhyddhau. Nid oedd y rhan fwyaf o staff y buom yn siarad â hwy yn defnyddio cyfeiriadur gwasanaethau cymunedol yn rheolaidd. Roeddent yn teimlo nad oedd y cyfeiriaduron sydd ar gael, fel Dewis Cymru a Phwyntiau Mynediad Unigol (PMU) yr awdurdod lleol, mor ddefnyddiol ag y gallent fod, nac yn gyfredol.
- 96 Disgrifiodd CICGC hefyd bryderon ac ymholiadau ynghylch lefel yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a oedd gan y Bwrdd Iechyd ynghylch gwaith gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a'r trydydd sector. Mae'r faith bod y chwe ardal awdurdod lleol yn aml yn gweithio mewn ffordd wahanol i'w gilydd yn gwneud pethau'n fwy anodd. Mae staff o'r tîm ardal yn gyfrifol am gasglu a chadw gwybodaeth am wasanaethau awdurdod lleol a'r trydydd sector. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod anawsterau gweithredol yn sgil amryw o swyddi meddygol a nyrsio gwag yn rhannol gyfrifol am y modd y rhennir tasgau ac atebolrwydd ar hyn o bryd.
- 97 Yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17, nodwyd bod y Bwrdd Iechyd, mewn partneriaeth â phob awdurdod lleol, wedi sefydlu modelau PMU lleol yn ystod 2016-17. Bydd Grŵp Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol y Bwrdd Iechyd, sy'n gysylltiedig â gwaith y Gronfa Gofal Integredig, yn parhau i ddatblygu'r modelau PMU lleol yn ystod 2017-18.

Mae'r trefniadau ar gyfer monitro, adrodd a chraffu ar gynlluniau i ryddhau cleifion yn effeithiol ar y cyfan, ond mae'r perfformiad yn parhau i fod yn wael

Ceir llinellau atebolrwydd clir ar gyfer monitro a gwella prosesau cynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion, a threfniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad

- 98 Er mwyn i'r trefniadau fod yn effeithiol, mae angen cael llinellau atebolrwydd clir, a threfniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau ffocws parhaus i wella prosesau rhyddhau a chynnal llif cleifion drwy ysbytai.
- 99 O fewn y Bwrdd Iechyd, nodir cyfrifoldebau gweithredol dros gynllunio i ryddhau cleifion yn y polisi a'r protocol rhyddhau. Fel y nodwyd yn flaenorol, y Fetron Ardal/Cam i Lawr ar gyfer pob un o ardaloedd y Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol yn weithredol am y tîm cyswllt rhyddhau. Fodd bynnag, mae pob aelod o staff ward yn gyfrifol am gynllunio i ryddhau; ceir felly fecanweithiau uwchgyfeirio y gall pob aelod o staff ward gael mynediad atynt.
- 100 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio amryw o ddulliau i fonitro ac adolygu'r broses o ryddhau cleifion. Yn gyntaf, cynhelir tri chyfarfod gwely bob dydd ym mhob un o ysbytai aciwt y Bwrdd Iechyd. Bydd aelodau'r timau cyswllt rhyddhau yn bresennol yn y cyntaf o'r rhain, hy, y cynharaf yn y dydd. Yn ail, cynhelir cyfarfodydd i drafod cynnydd bob dydd Llun a dydd Iau, a all gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Nod y rhain yw adolygu cynnydd cleifion ac ymdrechu i ddatrys unrhyw rwystrau o fewn y system. Yn olaf, adolygir achosion cymhleth neilltuol mewn cyfarfodydd Tîm Aml-ddisgyblaeth penodol, a all gynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau cymdeithasol ac o therapïau, lle bo'n briodol.
- 101 Roedd y staff y buom yn siarad â hwy yn deall yn glir beth oedd y llinellau atebolrwydd ar gyfer Cynllunio i ryddhau cleifion. Bydd staff ward yn uwchgyfeirio unrhyw rwystrau neu broblemau neilltuol yn unol â'r strwythur mwyaf perthnasol. Er enghraifft, bydd problemau'n gysylltiedig â nyrsio yn cael eu uwchgyfeirio i'r Pennaeth Nyrsio, neu'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio ar gyfer pob safle, a'r un trefniadau'n berthnasol i Therapïau ac ati. Pan fo angen, bydd pryderon yn cael eu huwchgyfeirio i'r Cyfarwyddwyr Ardal, ac wedyn i'r Prif Weithredwr. Fel y Swyddog Gweithredol, mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am gyflwyno materion pwysig gerbron y Bwrdd pan fo angen.
- 102 Bob wythnos, bydd y Prif Weithredwr yn derbyn adroddiad cryno ar gynnydd y Bwrdd Iechyd o ran lleihau nifer y cleifion sy'n wynebu OwDG, ac effaith y cleifion hynny. Y Gyfarwyddiaeth Perfformiad sydd yn casglu ac yn dosbarthu'r rhestr hon.
- 103 Trafodir cynllunio i ryddhau cleifion yn y fforymau mewnol canlynol o fewn y Bwrdd Iechyd:
- Grŵp Trawsnewid Strategol y Bwrdd Iechyd o dan arweiniad un o Gyfarwyddwyr Ardal y Bwrdd Iechyd: sy'n edrych ar flaenoriaethau rhaglenni, gan gynnwys cynllunio i ryddhau cleifion;

- mae gan bob ardal ei grŵp gofal heb ei drefnu ei hun: gwahoddir gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol i fod yn bresennol yn y grŵp hwn, ond nid yw eu presenoldeb yn gyson; a
 - grŵp trawsnewid gofal heb ei drefnu: mae'r grŵp hwn yn ystyried sut i osgoi derbyn pobl i'r ysbyty a llwybrau amgen.
- 104 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau hefyd yn derbyn gwybodaeth reolaidd ynghylch cynllunio i ryddhau cleifion, gan gynnwys y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Roedd pob un o gyfarfodydd misol y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2017 yn cynnwys gwybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion. Cyfeiriwyd yn rheolaidd at gynllunio i ryddhau hefyd fel un o'r achosion wrth wraidd perfformiad gwael yn ystod adroddiadau eithrio ar berfformiad y Bwrdd lechyd o safbwynt oedi wrth drosglwyddo gofal.
- 105 Derbyniodd y Bwrdd hefyd wybodaeth yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion yn rheolaidd yn ystod cyfarfodydd rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2017. Ac eithrio cyfarfodydd arbennig, roedd pob cyfarfod yn cynnwys agweddau ar gynllunio i ryddhau cleifion, gan gynnwys adroddiadau eithrio rheolaidd ar OwDG yn rhan o'r Adroddiad Integredig ar Berfformiad misol. Roedd cynllunio i ryddhau cleifion hefyd wedi'i gynnwys mewn adroddiadau manylach ar lif cleifion ac yng nghynlluniau'r Bwrdd lechyd, fel y strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach a'r Cynllun Tymhorol.
- 106 Yn rhan o'n gwaith asesu strwythuredig yn 2016, gofynnwyd i aelodau bwrdd ar draws y saith bwrdd lechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG Felindre i ba raddau yr oeddent yn cytuno â sawl datganiad ynghylch llif cleifion a chynllunio i ryddhau cleifion. Canfu ein harolwg o aelodau bwrdd fod saith o'r 16 o aelodau bwrdd (43%) a ymatebodd naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y Bwrdd a'i bwyllgorau yn craffu'n rheolaidd ar effeithiolrwydd cynlluniau rhyddhau. Gellir cymharu hyn â 56% ar draws Cymru.
- 107 Mae cynlluniau rhyddhau da yn dibynnu ar allu sefydliadau partner i gydweithio, a hefyd ar sefydlu trefniadau i herio'n fewnol a chraffu ar y cyd. Dangosodd y Bwrdd lechyd ei fod yn barod i ymgysylltu a chydweithio â sefydliadau partner ym mis Rhagfyr 2016, pan ddaeth partneriaid ynghyd i gynnal 'pum diwrnod mewn ystafell' - taith esboniadol drwy'r llif cleifion.
- 108 Ar ben hyn, mae'r Bwrdd lechyd yn cydweithio â'r awdurdodau lleol a phartneriaid eraill drwy sawl fforwm, gan gynnwys:
- byrddau gwasanaethau integredig
 - byrddau trawsnewid gofal yn y gymuned/gofal plant/gofal sylfaenol
 - Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol
 - Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
 - y grŵp gofal heb ei drefnu
 - uwchgynadleddau gofal heb ei drefnu
- 109 Mae fforymau o'r fath wedi helpu'r Bwrdd lechyd a'i randdeiliaid i greu cynlluniau tymhorol a chynlluniau gweithredu ar y cyd. Mae'r Bwrdd lechyd a Chyngor Gwynedd hefyd wedi cyd-leoli eu timau fel eu bod yn gweithio'n well, ee lleoli timau rhyddhau gyda gweithwyr cymdeithasol. Aeth staff o'r Bwrdd lechyd i uwchgynadleddau gofal heb ei drefnu ym mhob rhanbarth ar ddechrau tymor yr haf 2017, lle cytunwyd ar gamau i gydweithio er mwyn gwella llif cleifion.

110 Mae'r Prif Weithredwr ynghyd â'r Is-gadeirydd yn cynrychioli'r Bwrdd Iechyd ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Sefydlwyd y Bwrdd fel bwrdd cysgodol ym mis Ebrill 2016, a daeth yn gwbl weithredol ym mis Medi 2016. Yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd ar gyfer 2016-17, nodir mai un o'i brif nodau yw 'helpu pobl i ddefnyddio'u sgiliau a'u hyder i fyw'n annibynnol, wedi'u cefnogi gan wasanaethau a chyfleusterau o ansawdd yn y gymuned'. Fodd bynnag, dengys Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol mai prif ffocws y Bwrdd yn ei flwyddyn gyntaf oedd ei ymsefydlu ei hun a'i strwythurau llywodraethu.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio ystod o wybodaeth i gefnogi gwaith craffu amserol ar lif cleifion, ond gallai gynnwys data sy'n ymwneud yn fwy penodol â chynllunio i ryddhau cleifion er mwyn cefnogi gwelliant

- 111 I ddibenion monitro ac adrodd, mae'n hanfodol cael yr wybodaeth gywir am berfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion. Achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yw'r unig fesuriad cenedlaethol, sydd yn gyffredin i sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol, felly ceir monitro, adrodd a chraffu rheolaidd ar y mesuriad hwnnw. Nid oes unrhyw fesurau cenedlaethol eraill yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion, ac mae'r wybodaeth am ansawdd ac effeithiolrwydd cynllunio i ryddhau cleifion yn hygyrch.
- 112 Fodd bynnag, er mwyn deall oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty, dylai sefydliadau'r GIG yn ôl arfer da gael cyfres o fesurau perfformiad, gan gynnwys gwybodaeth am brofiadau a chanlyniadau cleifion yn sgil y broses ryddhau. Gall y rhain fod yn gymysgedd o fesurau meddal a chaled.
- 113 Yn rhan o'n hadolygiad, buom yn edrych ar y math o wybodaeth am berfformiad a adroddir wrth grwpiau gweithredol a'r Bwrdd neu ei is-bwyllgorau fydd o gymorth i fwrw goleuni ar berfformiad cynllunio i ryddhau cleifion, a pha mor rhwydd y mae cleifion yn llifo drwy'r system ysbytai. Yn **Nangosyn 10** gwelir y dangosyddion perfformiad a'r diweddariadau a adroddwyd wrth y Bwrdd yn BIP Betsi Cadwaladr.

Dangosyn 10: ystod yr wybodaeth am berfformiad a adroddwyd gerbron y Bwrdd yn ystod 2016-17

Mae'r tabl uchod yn dangos yr wybodaeth am berfformiad a oedd yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion a gyflwynwyd gerbron y Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Cynllunio i ryddhau cleifion	Llif cleifion
<ul style="list-style-type: none"> Nifer yr achosion o OwDG Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal fesul 10,000 o boblogaeth y BILI - iechyd meddwl (pob oed) Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal fesul 10,000 o boblogaeth y BILI – ar wahân i iechyd meddwl (75 oed+) 	<ul style="list-style-type: none"> Llawdriniaethau wedi'u canslo 95% yn aros 4 awr neu lai yn yr holl gyfleusterau gofal brys mawr a bach, o'r amser pan gyrhaeddant hyd at eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau Lleihau'r amser trosglwyddo ambiwlans o 1 awr (y targed yw dim arhosiad > 1 awr)

Cynllunio i ryddhau cleifion	Llif cleifion
<ul style="list-style-type: none"> • Diwrnodiau gwely a gollwyd i'r holl gleifion a oedd yn dal yn yr ysbyty ar ôl y dyddiad pan ddatganwyd eu bod yn feddygol iach i'w ryddhau • Data'r BI o'r Arolwg profiadau cleifion 	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys (sero yw'r targed) • % y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos am driniaeth (y targed yw 95%) • Nifer y cleifion sy'n aros dros 36 wythnos am driniaeth (y targed yw sero)

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o bapurau a gyflwynwyd gerbron y Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o fis Ionawr hyd fis Mehefin 2017

- 114 Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio Adroddiad Integredig ar Ansawdd a Pherfformiad (AIAP) er mwyn adrodd a chraffu ar berfformiad yn rheolaidd. Mae'r AIAP yn cyfleu'r perfformiad o ran OwDG sydd wedi'i gynnwys yn y 147 o dargedau cenedlaethol ac yn y dangosyddion lleol a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd. Ceir adroddiad eithrio pan na fydd perfformiad yn cyrraedd y safon y mae'r Bwrdd Iechyd yn gobeithio ei chyrraedd. Cyflwynir yr adroddiad hwnnw gerbron y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, y Grŵp Rheoli Gweithredol a'r Bwrdd bob mis. Mae perfformiad OwDG hefyd ar yr agenda yn ystod cyfarfodydd atebolrwydd misol, sydd yn rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad sydd ar waith i'r Bwrdd Iechyd tra bo'n destun Mesurau Arbennig¹⁶.
- 115 Mae'r gwaith y mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn ei gyflawni er mwyn gwella i berfformiad yng nghyswllt OwDG yn cynnwys cipio a chodio gwybodaeth am yr hyn sy'n achosi i gleifion wynebu oedi. Nododd y Bwrdd y cynnig hwn ym mis Chwefror 2017, ac mae'n dangos bod y tîm prosiect wedi datblygu dros 100 o godau i ddynodi pam bod claf yn wynebu oedi. Mae hyn yn ddefnyddiol gan ei fod yn golygu bod gan yr ysbyty niferoedd gwirioneddol i'w defnyddio'n sail er mwyn adnabod rhwystr a gweithredu yn ei gylch ynghynt nag o'r blaen. Cynhyrchir y rhestr bob dydd lau, a bydd wardiau'n mynd drwy'r rhestr bob dydd Llun er mwyn adnabod tueddiadau, uwchgyfeirio problemau a gweithredu unrhyw welliannau sydd o fewn eu gallu.
- 116 Yn ogystal â hyn, gofynnwyd i'r aelodau Bwrdd am eu safbwyntiau ynghylch yr wybodaeth y maent yn ei derbyn ynghylch cynllunio i ryddhau cleifion. Mewn ymateb i'n harolwg aelodau bwrdd:
- Roedd 10 o 16 o aelodau bwrdd (63%) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar lif cleifion, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 75%; ac
 - roedd 10 o 16 o aelodau bwrdd (63%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn deall y rhesymau dros oedi wrth ryddhau cleifion o ysbytai o fewn eu sefydliad, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 82%.

¹⁶Mesurau Arbennig' yw trefniadau Llywodraeth Cymru i graffu'n fanylach ar y Bwrdd Iechyd. Ceir pedair lefel uwchgyfeirio, a Mesurau Arbennig yw'r lefel uchaf. Gwnaed y Bwrdd Iechyd yn destun Mesurau Arbennig yn ystod 2015.

- 117 Dyma wybodaeth bellach a fyddai'n ddefnyddiol i ddeall perfformiad wrth gynllunio i ryddhau cleifion yn arbennig, ond nad yw'n cael ei hadrodd i'r Bwrdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:
- nifer a chanran y cleifion yr amcanwyd dyddiad rhyddhau ar eu cyfer
 - aildderbyniadau cyn pen 28 diwrnod ar ôl rhyddhau o'r ysbyty
 - canran sy'n cael eu rhyddhau cyn hanner dydd
 - canran sy'n cael eu rhyddhau gyda'r nos, heb i hynny fod wedi'i gynllunio
 - canran sy'n cael eu rhyddhau cyn pen 24 awr a 72 awr yn dilyn datganiad eu bod yn 'feddygol iach'
- 118 Bwriad y Bwrdd Iechyd yw bod pob claf yn derbyn Amcan o'r Dyddiad pan fydd yn Feddygol iach i'w Ryddhau yn ogystal ag ADRh. Yn ôl adroddiad diwedd blwyddyn y Bwrdd Iechyd ar CGB 2016-17, nodwyd y bu'n llwyddiannus wrth gyflwyno ADRh a system i fonitro cydymffurfio, ond ni fanylodd o gwbl ar y perfformiad hwnnw. Fodd bynnag, dangosai archwiliad o rawdiau Bwrdd a gynhaliwyd gan Ysbyty Glan Clwyd ym mis Ionawr 2017 nad oedd y cyfraddau hyn wedi'u hymwreiddio'n dda. Nid yw'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad na'r Bwrdd yn craffu ar gyfradd y cleifion y pennwyd y targedau hyn ar eu cyfer ar hyn o bryd. Mae polisi a phrotocol rhyddhau'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cynnwys mesurau canlyniad, mesurau ar gyfer y sefydliad a mesurau ar gyfer y claf er mwyn dangos a yw'r polisi a'r protocol yn cael eu defnyddio. Nodir y bydd y mesurau'n cael eu monitro'n flynyddol, ond ni cheir manylion ynghylch pwy fydd yn gwneud hynny nac ymhle yr adroddir am hynny.
- 119 Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG pa wybodaeth y gellid ei chasglu am eu systemau gweinyddu cleifion. Yn **Nangosyn 11** gwelir bod gan y rhan fwyaf o systemau gweinyddu cleifion y gallu i gipio ystod o ddata er mwyn helpu i gynllunio i ryddhau cleifion. Fodd bynnag, ychydig llai na hanner ohonynt sydd yn cynnwys y gallu i gofnodi a yw proses ryddhau yn syml neu'n gymhleth.

Dangosyn 11: meysydd data ar systemau gweinyddu cleifion sefydliadau'r GIG yn gysylltiedig â'r broses ryddhau

Mae'r tabl yn dangos mai amrywiaeth gyfyng o ddata y gellir ei chofnodi ar y rhan fwyaf o systemau gweinyddu cleifion y GIG yn gysylltiedig â'r broses ryddhau i gefnogi gwaith monitro gweithredol. Fodd bynnag, ychydig llai na hanner y systemau a all gasglu gwybodaeth ynghylch a yw proses ryddhau yn syml neu'n gymhleth.

Meysydd data ar systemau gweinyddu cleifion sydd yn gysylltiedig â'r broses ryddhau	Nifer sefydliadau'r GIG sy'n ymateb yn gadarnhaol
Dyddiad rhyddhau disgwylidig	12
Dyddiad rhyddhau o'r ysbyty	12
Amser rhyddhau o'r ysbyty	12
Cyrchfan ar ôl rhyddhau ee, cartref yr unigolyn, cartref preswyl, cartref gofal ac ati	12
Dyddiad datgan bod y claf yn feddygol iach i'w ryddhau	8
A yw'r achos o ryddhau yn syml neu'n gymhleth	5

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrff y GIG yn 2017 ([Gweler Troednodyn 9](#))

- 120 Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym fod ei systemau gweinyddu cleifion yn gallu casglu'r holl wybodaeth y manylir arni uchod, ac eithrio Ysbyty Glan Clwyd a nododd nad yw ei system yn casglu gwybodaeth ynghylch a yw achos o ryddhau yn achos syml neu gymhleth. Dywedodd staff yn Ysbyty Glan Clwyd wrthym hefyd fod problemau'n gysylltiedig â defnyddio'r system Aura Flow¹⁷, gan nad yw'n cyfathrebu'n llawn â'r System Gweinyddu Cleifion, ac er bod modd i staff drosglwyddo data o'r System Gweinyddu Cleifion i Aura, ni all drosglwyddo data o Aura i system y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i wella'r cyswllt hwn rhwng y systemau, ac yn gobeithio y bydd y gallu i fwydo gwybodaeth am ryddhau cleifion yn uniongyrchol o Aura Flow i System Gweinyddu Cleifion Cymru yn creu gwelliannau sylweddol i'r broses o gasglu data amser real ar statws derbyn y claf i system Gweinyddu Cleifion y Bwrdd Iechyd.
- 121 Yn ôl Cynllun Gweithredol Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18, mae gwaith yn parhau, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, i gyfuno holl Systemau Gweinyddu Cleifion y Bwrdd Iechyd. Drwy hyn, dylid bod modd ymdrin â'r anghysondebau yn yr wybodaeth a gesglir gan bob ardal ysbyty. Bwriedir cwblhau'r prosiect cyfuno yn ystod 2017-18.

¹⁷ Datrysiaid rheoli llif cleifion a gwelyau yw Aura Flow sy'n cyflwyno sgriniau cyffwrdd mawr i ddisodli byrddau gwyn ar wardiau.


Er bod canran y cleifion sy'n wynebu oedi hir cyn cael eu rhyddhau wedi gwella rhywfaint yn ddiweddar, mae perfformiad wrth gynllunio i ryddhau yn dal i fod yn gymharol wael

- 122 Cynhaliodd yr Uned Gyflawni ei hadolygiad o waith cynllunio i ryddhau cleifion yn y Bwrdd lechyd ym mis Rhagfyr 2016. Ers hynny, mae'r Bwrdd lechyd wedi cymryd camau i ymdrin â heriau mewnol ac allanol i'r broses cynllunio i ryddhau cleifion. Fel y soniwyd o'r blaen, mae'r Bwrdd lechyd yn ceisio sicrhau mwy o gysondeb o ran y staff sy'n cyflawni'r sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' ac o ran sicrhau bod ADRh yn cael ei ddarparu i'r holl gleifion. Mae'r Bwrdd lechyd hefyd wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid, drwy'r ymarfer 'pum diwrnod mewn ystafell', i sefydlu cyd-ddealltwriaeth yghylch yr heriau sy'n codi ym mhob rhan o daith y claf, a thrwy ddatblygu cynllun cyffredin i ymdrin â'r heriau hyn.
- 123 Yn ôl y tueddiadau perfformio yn **Nangosyn 12** a **Dangosyn 13** mae nifer yr achosion o OwDG (ac eithrio cleifion mewn cyfleusterau iechyd meddwl) yn y Bwrdd lechyd wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Er i nifer yr achosion o OwDG gynyddu o fewn y Bwrdd lechyd yng nghanol 2016, cafwyd gostyngiad yn nifer yr achosion o OwDG yn ystod 2016-17.
- 124 Ym mis Awst 2016, symudodd y Bwrdd lechyd y timau rhyddhau i'w cynnwys o dan y strwythur rheoli ardal. Mae nifer o bapurau a gyflwynwyd gerbron y Bwrdd yn ystod 2017 yn awgrymu bod symud y timau rhyddhau i'w cynnwys o dan y strwythur ardal wedi cael effaith gadarnhaol. Gostyngodd nifer a chyfran y cleifion a wynebai oedi o 13 wythnos neu fwy rhwng 2015-16 a 2016-17.

Dangosyn 12: tueddiadau oedi wrth drosglwyddo gofal (ac eithrio cyfleusterau iechyd meddwl) rhwng mis Ebrill 2015 a mis Ebrill 2017

Dengys y siart fod achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal o fewn y Bwrdd Iechyd wedi gwella ar y cyfan ers mis Ebrill 2015, er gwaethaf y cynnydd sydyn mewn niferoedd dros fisoedd yr haf.

Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (ac eithrio cyfleusterau iechyd meddwl)



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o [gronfa ddata trosglwyddo gofal GIG Cymru](#), Mai 2017

Dangosyn 13: newid yn nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (ac eithrio cyfleusterau iechyd meddwl) yn ôl hyd yr oedi rhwng 2015-16 a 2016-17

Dengys y tabl fod y gyfran a wynebai oedi o 13 wythnos neu fwy wedi gostwng er bod nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal wedi cynyddu.

Hyd yr oedi	Canran (%) yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal (OwDG)	
	2015-16	2016-17
0-3 wythnos	59	65
4-6 wythnos	21	20
7-12 wythnos	13	12
13-26 wythnos	5	3
26+ wythnos	2	0
Cyfanswm OwDG	1,302	1,443


Ffynhonnell: Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o [gronfa ddata trosglwyddo gofal GIG Cymru](#), Mai 2017

- 125 Dros yr un cyfnod, gwelir yn **Nangosyn 14** fod cyfran y cleifion sy'n disgwyl dros 12 awr yn yr adran Damweiniau ac Achosion Brys wedi cynyddu ar draws safleoedd ysbyty'r Bwrdd Iechyd. Yn Ysbyty Glan Clwyd y gwelwyd y dirywiad mwyaf mewn perfformiad, o 8% (Ebrill 2015) i 12% (Mawrth 2017), ac y gwelwyd yn gyson fod cyfran uwch o gleifion yn disgwyl dros 12 awr yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys na chyfartaledd Cymru. At ei gilydd, mae'r ddau safle ysbyty aciwt arall o fewn y Bwrdd Iechyd, Ysbyty Gwynedd a Wrecsam Maelor, wed perfformo'n debyg i gyfartaledd Cymru.

Dangosyn 14: cyfran o gleifion y Bwrdd Iechyd oedd yn gorfod disgwyl dros 12 awr yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys o gymharu â chyfartaledd Cymru rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2017

Mae'r siart yn dangos bod cyfran y cleifion sy'n disgwyl dros 12 awr yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Wrecsam Maelor ac Ysbyty Gwynedd yn debyg ar y cyfan i gyfartaledd Cymru, gyda pherfformiad yn Ysbyty Glan Clwyd yn gyson waelach na chyfartaledd Cymru.

Cyfran y cleifion sy'n aros 12 awr neu fwy yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru [o'r Amser a Dreulir mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys: Gwybodaeth Reoli Fisol](#), Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Mawrth 2017

126 Disgwylir i gyrff y GIG leihau hyd arosiadau ar gyfer derbyniadau meddygol brys. Mesurir perfformiad ar sail cyfnod treigl o 12 mis (mae'r perfformiad a adroddir yn unrhyw fis felly'n cynrychioli cyfartaledd y 12 mis blaenorol, y hytrach na pherfformiad yn ystod y mis hwnnw) Gwelir yn **Nangosyn 15** fod yr arhosiad cyfartalog ar gyfer derbyniadau brys o fewn y Bwrdd lechyd wedi gwella rhyw fymryn ar ddechrau 2016, ond bod y ffigur wedi dychwelyd i'r gyfradd flaenorol o 11.5 diwrnod bellach. Mae arhosiad cyfartalog treigl y Bwrdd lechyd yn parhau i fod yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru, ac mae'r cyfartaledd hwnnw hefyd yn gostwng.

Dangosyn 15: tueddiadau'r hyd arhosiad cyfartalog (diwrnodiau) ar sail cyfnod treigl o 12 mis ar gyfer derbyniadau brys ar gyfer wardiau meddygol cyfun rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2017

Dengys y siart fod arhosiad cyfartalog o fewn y Bwrdd lechyd wedi bod yn gyson uwch na chyfartaledd Cymru rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2017.

Hyd arhosiad cyfartalog (diwrnodiau) 12 mis treigl yn achos derbyniadau brys ar gyfer meddygaeth gyfunol



Sylwer nad yw echel Y yn dechrau ar sero.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata effeithlonrwydd GIG Cymru gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Mawrth 2017

Atodiad 1

Canfyddiadau meintiol Uned Gyflawni GIG Cymru o archwiliadau o gynlluniau rhyddhau yn ysbytai aciwt y Bwrdd Iechyd.

Dangosyn 16: statws CAG¹⁸ asesiad yr Uned Gyflawni o dystiolaeth ysgrifenedig mewn nodiadau achos yn erbyn gofynion penodol a nodir yn Passing the Baton¹⁹

Mae'r tabl yn dangos bod perfformiad yn gysylltiedig â'r broses rhyddhau cleifion yn wael gan amlaf o'i asesu yn erbyn arferion disgwylidig.

Proses ryddhau	Arferion disgwylidig	Ysbyty Maelor Wrecsam	Ysbyty Glan Clwyd	Ysbyty Gwynedd
Cam 1 Yr holl achosion rhyddhau, cyn pen 24 awr ar ôl derbyn cleifion	Nodir a yw'r broses ryddhau yn syml/gymhleth wrth dderbyn i'r ysbyty, neu'n fuan wedyn.			
	Bydd rhywun yn sgwrsio â'r claf i'w holi sut yr oedd yn ymdopi cyn cael ei dderbyn i'r ysbyty, fel bo modd nodi unrhyw ofynion ar gyfer rhyddhau, a chynllunio ar gyfer hynny, o'r dyddiad derbyn.			
	Bydd rhywun yn sgwrsio â phrif ofalwr y claf (lle bo'n briodol) er mwyn nodi unrhyw ofynion rhyddhau yn fuan ar ôl derbyn y claf i'r ysbyty.			
	Nodir cyflyrau hirdymor wrth dderbyn y claf i'r ysbyty, a sefydlir canfyddiad y claf o'i statws cyfredol.			
	Nodir y trefniadau presennol ar gyfer cydgysylltu gofal a chefnogi yn y gymuned.			
	Darperir gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion a'u teuluoedd ynghylch yr hyn y dylent ei ddisgwyl o'r broses ryddhau, a'r hyn a ddisgwylir ganddynt hwythau.			

¹⁸ Mae'r system goleuadau traffig CAG (coch, ambr, gwyrdd) yn darparu cod lliw syml i ddangos lle mae perfformiad yn is na'r optimwm.

¹⁹ Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd, Passing the Baton, 2008.

Proses ryddhau	Arferion disgwylidig	Ysbyty Maelor Wrecsam	Ysbyty Glan Clwyd	Ysbyty Gwynedd	
Cam 2 Achosion rhyddhau cymhleth	Cynhelir sgysiau buan â darparwyr gwasanaeth presennol er mwyn nodi unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg, ac ymdrin â'r materion hynny mewn modd rhagweithiol.				
	Nodi'r cydgysylltydd gofal cyfredol.				
	Mewn achosion rhyddhau cymhleth, bydd y claf a'r gofalwr yn cael manylion cyswllt y gweithiwr proffesiynol a enwebir i weithredu fel eu cydgysylltydd gofal.				
	Mewn achosion rhyddhau cymhleth, trefnir cynhadledd achos gan y tîm amlddisgyblaeth i ystyried asesiadau a chytuno ar gynllun rhyddhau gyda'r claf/gofalwr.				
Cam 3 Bob tro wrth ryddhau	Wedi pennu amcan o'r dyddiad rhyddhau (ADRh)				
	Mae'r ADRh yn ystyriol o gamau aciwt ac adsefydlu, lle bônt yn berthnasol.				
Cam 4 Bob tro wrth ryddhau	Cyfathrebir yn glir â'r claf a'i deulu/ofalwyr ynghylch yr ADRh.				
	Gellir addasu'r ADRh yn unol ag ymateb yr unigolyn i driniaeth, er mwyn pennu dyddiad rhyddhau realistig.	Ceir tystiolaeth bod hyn wedi digwydd, ond ni chafodd ADRh ond ei gofnodi yn 13%, 23% a 32% o'r nodiadau achos, yn y drefn honno			
	Caiff cynlluniau rhyddhau eu hadolygu'n ddyddiol, ac fe geir tystiolaeth o gamau a gwblhawyd.				
	Nodir cyfyngiadau posibl a gweithredir yn eu sgil/cyfeirir y materion hynny i lefel uwch				
	Mae'r claf a'i deulu/ofalwyr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd y cynllun rhyddhau.				

Proses ryddhau	Arferion disgwylidig	Ysbyty Maelor Wrecsam	Ysbyty Glan Clwyd	Ysbyty Gwynedd
Achosion rhyddhau cymhleth	Ystyrir llwybrau amgen yn y gymuned er mwyn hwyluso rhyddhau ynghynt a chynyddu annibyniaeth hyd yr eithaf.			
	Ystyrir y model 'rhyddhau/trosglwyddo' i asesu ym mhob achos rhyddhau cymhleth.			
	Y cydgysylltydd gofal yn casglu asesiad amserol gan y tîm amlddisgyblaeth.			
	Caiff cynllun rhyddhau ei ddylunio'n arbennig gyda'r claf/gofalwr, gan adlewyrchu cryfderau'r claf a'r hyn sydd bwysicaf iddo.			
	Ystyrir darpariaeth y trydydd sector lle bo'n briodol.			
	Lle bo angen, trefnir cyfarfodydd amlddisgyblaeth mewn modd amserol (ee, i drafod y lleoliad nesaf a phennu cymhwysra CIC).			
	Os oes angen lleoliad mewn cartref gofal, rhoddir gwybodaeth glir i'r claf a'r gofalwr am gategori'r cartref gofal y dylent fod yn chwilio amdano'.			
	Gwybodaeth am gartrefi gofal yn yr ardal.			
	Gwybodaeth am y Polisi Dewis			
	Gwybodaeth am sut y gallant gael cymorth i chwilio am gartref addas os oes angen hynny (ee, y trydydd sector)			
Cam 5 Bob tro wrth ryddhau	Cwblheir rhestr wirio er mwyn sicrhau bod yr holl agweddau ymarferol yn gysylltiedig â rhyddhau wedi'u hystyried.			

Ffynhonnell: Uned Gyflawni GIG Cymru, Archwiliad o'r Trefniadau i Ryddhau Cleifion ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Hydref 2015

Atodiad 2

Methodoleg archwilio

Cynhaliwyd ein hadolygiad o gynllunio i ryddhau cleifion ledled Cymru rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2017. Nodir manylion ein dull o archwilio isod.

Dangosyn 17: methodoleg archwilio

Mae'r tabl yn dangos ystod y gweithgareddau a gyflawnwyd yn rhan o'r broses archwilio.

Dull	Manylion
Ffurflen Casglu Data – Cynllunio i Ryddhau Cleifion (gwybodaeth ar lefel y Bwrdd lechyd)	<p>Ceisiwyd gwybodaeth ar lefel gorfforaethol ynghylch y graddau y rhennir blaenoriaethau wrth ryddhau cleifion a throsglwyddo gofal; y gwasanaethau neu'r timau sydd ar gael i gefnogi rhyddhau cleifion yn brydlon; tirlun gwasanaethau cymunedol; hyfforddiant i gefnogi'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion; rheoli perfformiad yn gysylltiedig â chynllunio i ryddhau cleifion; a'r graddau y rhennir gwybodaeth am wasanaethau addasu tai â sefydliadau'r GIG. Defnyddiwyd yr wybodaeth a ddychwelwyd i gefnogi'r archwiliad cynllunio i ryddhau cleifion, ac astudiaeth yr Archwilydd Cyffredinol o addasiadau tai.</p> <p>Cwblhaodd a chyflwynodd y Bwrdd lechyd y ffurflenni casglu data, un ar gyfer ardal y Dwyrain, un arall ar gyfer yr ardal Ganolog, ac un arall ar gyfer ardal y Gorllewin.</p>
Ffurflen Casglu Data – Lolfa Ryddhau	<p>Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG a oedd yn gweithredu gwasanaethau lolfa ryddhau i ddisgrifio pob lolfa ryddhau. Gofynnwyd am yr oriau gweithredu, y proffil staffio, nifer y cleifion yr oedd y lolfa yn ei gynnwys a'r amgylchedd i cleifion.</p> <p>Cyflwynodd y Bwrdd lechyd dair ffurflen, un ar gyfer pob Ysbyty Cyffredinol Dosbarth.</p>
Ffurflen Casglu Data – Tîm Cyswllt Rhyddhau Cleifion.	<p>Gofynnwyd i sefydliadau'r GIG sôn wrthym am y tîm cyswllt rhyddhau os oedd y timau hynny i'w cael. Gofynnwyd am wybodaeth ynghylch oriau gweithredu, y proffil staffio, costau'r tîm/gwasanaeth a natur ei weithgarwch.</p> <p>Lle'r oedd sawl tîm cyswllt rhyddhau yn gweithredu, byddai un ffurflen yn cael ei llenwi ar gyfer pob prif ysbyty aciwt os oedd y timau'n gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd. Os oedd y tîm cyswllt rhyddhau cleifion yn gweithredu fel un gwasanaeth integredig, byddai un ffurflen yn cael ei chwblhau.</p> <p>Cyflwynodd y Bwrdd lechyd dair ffurflen, un ar gyfer pob tîm sy'n ymwneud ag Ardal y Dwyrain, yr Ardal Ganolog ac Ardal y Gorllewin.</p>

Dull	Manylion
Cais am ddogfennau	<p>Buom yn adolygu dogfennau gan y Bwrdd Iechyd a drafodai strategaethau a chynlluniau ar gyfer rheoli llif cleifion a gofal heb ei drefnu, polisïau'n gysylltiedig â rhyddhau cleifion, trosglwyddo gofal a dewis cartref, llwybrau rhyddhau, cynlluniau gweithredu i wella prosesau cynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion ac adroddiadau ar berfformiad, gan gynnwys rhai'n gysylltiedig â phrofiad y claf neu wybodaeth am gwynion a digwyddiadau'n gysylltiedig â phrosesau rhyddhau. Dibynnwyd hefyd ar wybodaeth yn yr adroddiadau a luniwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan bob bwrdd iechyd neu bartneriaeth ranbarthol, a roddai grynodedeb o'r defnydd a wnaed o'r Gronfa Gofal Canolraddol, ac effaith y gronfa honno, yn 2015-16.</p>
Cyfweiliadau	<p>Buom yn cyfweled â nifer o aelodau staff, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynrychiolydd y Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Bwrdd; • Cynrychiolwyr o'r Cyngor Iechyd Cymunedol; • Y Cydgysylltydd Rhyddhau; • Yr Arweinydd Cefnogi Rhyddhau; • Y Prif Weithredwr; • Tair Metron Llif Cleifion (Gorllewin, Canol a Dwyrain); • Tri Chyfarwyddwr Ardal (Gorllewin, Canol a Dwyrain); • Tri Chyfarwyddwr Ardal Cynorthwyol ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol (Gorllewin, Canol a Dwyrain); • Tri Chyfarwyddwr Ysbyty (Ysbyty Maelor, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Gwynedd); • Staff ward gan gynnwys Metronau (aciwt a chymunedol), Prif Nyrsys a Rheolwyr; • Nyrs Arwain Rhyddhau Gofal Eilaidd • Ymgynghorydd Anadlol; • Pennaeth Gofal wedi'i Drefnu/Pennaeth Nyrsio - Llawfeddygaeth • Rheolwr y Tîm Camu i Lawr Ardal; • Metron Camu i Lawr; • Nyrs Arweiniol Dros Dro, Gwasanaethau Nyrsio Cymunedol; • Swyddog Tai o'r Tîm Rhyddhau Canolog; • Pennaeth Nyrsio - Meddygaeth; • Tri Chyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol (Gorllewin, Canol a Dwyrain); a • Phenaeithiaid Gwasanaethau ThG.
Defnydd o ddata presennol	<p>Defnyddiwyd ffynonellau gwybodaeth sy'n bodoli eisoes, lle'r oedd hynny'n bosibl, fel gwaith yr Uned Gyflawni o 2016 ar gynllunio i ryddhau cleifion, data o wefan StatsCymru ar gyfer nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, gwelyau ysbyty, staff, derbyniadau, cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy mewn adrannau damweiniau ac achosion brys a hyd arosiadau.</p>

Atodiad 3

Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion

Cynhwysir ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd ar ôl i'r templed gael ei gwblhau. Bydd yr atodiad yn cael ei gynnwys yn rhan o'r adroddiad terfynol a gyhoeddir ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ystyried yr adroddiad.

Dangosyn 18: ymateb y rheolwyr

Mae'r tabl yn dangos argymhellion yr adroddiad a'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu eu cymryd i ymdrin â'r rhain.

Cyf	Argymhellion	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
A1	<p>Hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau. Er gwaethaf cynlluniau i drefnu hyfforddiant amlasiantaeth ac amlddisgyblaeth ar bolisiâu a phrotocolau cynllunio i ryddhau, nid yw hyfforddiant yn cael ei ddarparu mewn modd cyson. Dylai'r Bwrdd Iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none">ehangu argaeledd y broses cynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o hyfforddiant ymsefydlu, i gynnwys staff meddygol newydd;darparu hyfforddiant gloywi ar y polisi a'r protocol rhyddhau ar gyfer yr holl staff perthnasol; a	Staff ward yn gweithredu'r polisi a'r protocol rhyddhau mewn modd cyson, pa le bynnag y bônt yn y Bwrdd Iechyd.	ydy	ydy	<ul style="list-style-type: none">Hunanasesu/Meincnodi pob agwedd ar Brotocolau a Chynllunio i Ryddhau ar draws y tair ardal a'r tri Ysbyty Gofal Eilaidd.Hunanasesu/Meincnodi pob agwedd ar hyfforddi staff ar Ryddhau Cleifion.Hunanasesu/Meincnodi Llwybrau Rhyddhau syml a chymhleth.Datblygu a gweithredu Proses Ryddhau ar gyfer pob rhan o BIPBC, a phroses sy'n cynnwys hyfforddiant a llwybrau.	Gorffennaf 2018	Stephen Jones Ffion Johnstone

Cyf	Argymhellion	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
	<ul style="list-style-type: none"> darparu hyfforddiant ar lwybrau rhyddhau syml a chymhleth y Bwrdd lechyd. 						
A2	<p>Cydymffurfiaeth â'r polisi rhyddhau. Nodir yn y polisi a'r protocol rhyddhau cleifion y defnyddir archwiliadau clinigol i fonitro cydymffurfiaeth, ond gwelsom nad oedd archwiliad wedi cael ei gynnal yn ddiweddar. Dylai'r Bwrdd lechyd gyflwyno cylch rheolaidd o archwiliadau er mwyn sicrhau cydymffurfio â'i bolisi a'i brotocol ar gyfer rhyddhau cleifion.</p>	Sicrwydd i gorff perthnasol o fewn y Bwrdd lechyd bod camau i wella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion a chydymffurfiaeth â'r polisi rhyddhau cleifion yn cael eu gweithredu a'u hymwreiddio.	ydy	ydy	<ul style="list-style-type: none"> Hunanasesu/Meincnodi ymwybyddiaeth staff o'r holl adnoddau sydd ar gael ar gyfer Rhyddhau Cleifion. Hunanasesu/Meincnodi'r Fframwaith Atebolrwydd cyfredol ar gyfer cydymffurfio â gofynion rhyddhau cleifion, ac ati Datblygu a gweithredu Fframwaith Atebolrwydd ar gyfer Rhyddhau Cleifion i weithredu ym mhob rhan o BIPBC, sy'n cynnwys casglu data a gwybodaeth a dangosyddion perfformiad allweddol deallus, yn ogystal â system ar gyfer adrodd i'r Grŵp Trawsnewid priodol. 	Mehafin 2018	Stephen Jones Ffion Johnstone
A3	<p>Llwybrau rhyddhau. Mae'r Bwrdd lechyd yn defnyddio dau lwybr rhyddhau cyffredinol: syml a chymhleth, ond ceir anghysondeb yn y modd y caiff y llwybrau hynny eu cymhwyso ar draws y tri safle</p>	Llwybrau hygyrch a hawdd eu deall sy'n cynnwys yr holl wybodaeth	ydy	ydy	<ul style="list-style-type: none"> Hunanasesu/Meincnodi ymagweddau at achosion rhyddhau syml a chymhleth ar draws yr holl safleoedd. 	Mehafin 2018	Stephen Jones Ffion Johnstone

Cyf	Argymhellion	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
	<p>ysbyty, ac mae rhai agweddau ar arfer da wedi'u hepgor. Er mwyn gwella ei ddefnydd o lwybrau, dylai'r Bwrdd Iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> sicrhau bod ei lwybrau rhyddhau yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws ei dri safle ysbyty; a datblygu ei lwybrau rhyddhau syml a chymhleth ymhellach drwy gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> safonau cytunedig ar gyfer amseroedd ymateb; gwybodaeth am ansawdd a diogelwch; prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth; a threfniadau i gyfeirio cleifion ag anghenion gofal diwedd oes. 	angenrheidiol, ac y mae staff yn teimlo'n hyderus i'w cymhwyso wrth ryddhau cleifion.			<ul style="list-style-type: none"> Datblygu a gweithredu cynllun safonol BIPBC ar gyfer Achosion Rhyddhau Syml a Chymhleth. Datblygu a gweithredu cynllun hyfforddi ar gyfer aelodau staff presennol a newydd, a hyfforddiant gloywi. Datblygu a gweithredu proses safonol i'r holl Fwrdd Iechyd er mwyn cytuno ar safonau cytunedig ar gyfer amseroedd ymateb; gwybodaeth am ansawdd a diogelwch; prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth a threfniadau i gyfeirio cleifion ag anghenion gofal diwedd oes. 		
A4	Rhyddhau'n brydlon. Gwelsom fod y staff yn cael eu hannog i ryddhau cleifion erbyn 11am (cyfeirir at hyn fel 'rhaglen yr awr aur'), ond gallai hyn olygu bod cleifion sydd o bosib yn ddiogel i'w rhyddhau y prynhawn blaenorol, neu gyda'r nos, yn wynebu oedi tan y diwrnod canlynol er mwy cyrraedd targed 11am. Nid oedd yr wybodaeth a adroddwyd wrth y Pwyllgor	Sicrwydd i gorff perthnasol o fewn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau bod achosion	ydy	ydy	<ul style="list-style-type: none"> Hunanasesu/Meincnodi Rhyddhau'n Brydlon Datblygu a gweithredu cynlluniau rhyddhau yn unol â 'rhaglen yr awr aur', gan gynnwys gweithgarwch rheoli perfformiad allweddol. 	Mai 2018	Stephen Jones Ffion Johnstone

Cyf	Argymhellion	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
	<p>Cyllid a Pherfformiad ar ryddhau cleifion yn ôl amser o'r dydd yn gwahaniaethu rhwng achosion priodol ac amhriodol o ryddhau, gan fod yr holl achosion o ryddhau rhwng hanner nos ac 11am wedi'u cynnwys yn yr un categori. I liniaru'r risg hon, dylai'r Bwrdd lechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • adrodd data manylach ar gleifion a gaiff eu rhyddhau rhwng 12am a 7am, a'r rhai a gaiff eu rhyddhau rhwng 7am ac 11am; a • chyflwyno mesurau ychwanegol fydd yn ei alluogi i ddeall a yw'r achosion o ryddhau cleifion o dan 'raglen yr awr aur' yn briodol, neu a yw cleifion yn cael eu cadw i mewn dros nos heb fod angen er mwyn cydymffurfio â'r targed hwnnw. 	o ryddhau cleifion o dan raglen yr awr aur yn briodol, a bod hynny'n digwydd er budd y claf.			<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu a gweithredu prosesau i roi adborth ar berfformiad wrth ryddhau rhwng 12am - 7am a 7am - 11am. 		

Cyf	Argymhellion	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
A5	<p>Pwynt mynediad unigol (PMU). Gwelsom anghysondeb wrth adolygu ymwybyddiaeth y staff o wasanaethau cymunedol i gefnogi rhyddhau cleifion. Mae'n rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod pob un o'r modelau PMU a sefydlwyd yn ystod 2016-17 yn cael eu gweithredu mewn modd effeithiol. Dylai'r Bwrdd lechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • weithio gyda'r awdurdodau lleol sy'n bartneriaid iddo i sicrhau cysondeb ac ansawdd yr wybodaeth a gedwir ym mhob pwynt mynediad unigol; • sicrhau bod staff o'r holl safleoedd ysbyty yn derbyn hyfforddiant digonol ar yr ystod o wasanaethau sydd ar gael drwy'r tri model PMU; a • sicrhau bod gwybodaeth am y modelau PMU newydd yn hygyrch i'r staff. 	Mae gan staff fynediad at wasanaethau cymunedol amrywiol i gefnogi cynlluniau rhyddhau, ac maent yn eu defnyddio'n hyderus.			<ul style="list-style-type: none"> • Hunanasesu/Meincnodi Gwasanaethau Cymunedol sydd ar gael i gefnogi'r broses o Gynllunio i Ryddhau. • Datblygu'r wybodaeth a gedwir am bob PMU. • Datblygu a gweithredu ymagwedd gyson er mwyn sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi ar fodelau PMU priodol, a bod yn gallu cael gwybodaeth am y modelau hynny. 	Awst 2018	Stephen Jones Ffion Johnstone

Cyf	Argymhellion	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
A6	<p>Adroddiadau rhyddhau. Gwelsom fod y Bwrdd, y Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn derbyn gwybodaeth reolaidd am achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, ond mai ychydig o wybodaeth a gyflwynir iddynt yn benodol am gynllunio i ryddhau cleifion. Byddai gwybodaeth o'r fath o gymorth i sicrhau dealltwriaeth well o'r rhesymau wrth wraidd perfformiad y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu ei drefniadau i adrodd ar berfformiad drwy gynnwys mesurau ychwanegol yn ei adroddiad rheolaidd ar berfformiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> nifer a chanran y cleifion yr amcanwyd dyddiad rhyddhau ar eu cyfer; aillderbyniadau cyn pen 28 diwrnod ar ôl rhyddhau o'r ysbyty; canran sy'n cael eu rhyddhau cyn hanner dydd; canran sy'n cael eu rhyddhau gyda'r nos, heb i hynny fod wedi'i gynllunio; ac 	<p>Mae Bwrdd a chanddo olwg dda ar berfformiad y Bwrdd Iechyd o ran cynllunio i ryddhau cleifion, yn ymwybodol o'r profiad a gaiff cleifion yn ystod y broses o gynllunio i'w rhyddhau, ac yn gweld unrhyw effaith negyddol ar ganlyniad claf yn sgil cynllunio (neu ddiffyg cynllunio) i'w ryddhau.</p>			<ul style="list-style-type: none"> Hunanasesu/Meincnodi perfformiad ar amcangyfrifon o ddyddiadau rhyddhau, aillderbyniadau rhyddhau cleifion yn brydlon. Datblygu a gweithredu mesuriadau perfformiad allweddol ar gyfer canran a chanddynt dyddiad rhyddhau; canran sy'n cael eu haillderbyn; canran sydd yn cael eu rhyddhau cyn 12am; canran sy'n cael eu rhyddhau yn y nos heb i hynny fod wedi'i gynllunio; canran sy'n cael eu rhyddhau cyn pen 24 awr ar ôl datganiad eu bod yn feddygol iach; nifer y cleifion sy'n aros yn yr ysbyty am gyfnod hwy na 21 diwrnod. 	Gorfennaf 2018	<p>Stephen Jones</p> <p>Ffion Johnstone</p>

Cyf	Argymhellion	Canlyniad / budd a fwriadwyd	Blaenoriaeth uchel (ydy/nac ydy)	Wedi'i dderbyn (ydy/nac ydy)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog Cyfrifol
	<ul style="list-style-type: none"> canran sy'n cael eu rhyddhau cyn pen 24 awr a 72 awr yn dilyn datganiad eu bod yn 'feddygol iach'. 						

Atodiad 4

Gweithgareddau a gyflawnir gan dimau cyswllt rhyddhau cleifion

Yn rhan o'r adolygiad hwn, gofynnwyd i'r byrddau iechyd pa mor aml yr oedd eu timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau'n gysylltiedig â chynllunio i ryddhau, gan amrywio rhwng 'bob amser' a 'byth'. Yn **Nangosyn 19** gwelir pa mor aml y cyflawnir y gweithgareddau a restrir yn 15 o'r timau cyswllt rhyddhau ledled Cymru.

Dangosyn 19: pa mor aml yr adroddwyd bod timau cyswllt rhyddhau cleifion ledled Cymru yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau

Dengys y tabl hwn pa mor aml y bydd y 15 o dimau cyswllt rhyddhau cleifion ledled Cymru yn cyflawni amrywiaeth o weithgareddau.

Gweithgareddau cynllunio i ryddhau cleifion	Pa mor aml yr adroddwyd bod timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni'r gweithgareddau a ganlyn				
	Bob amser	Yn aml	Weithiau	Yn anaml	Byth
Cymryd rhan mewn rhawdiau ward neu gyfarfodydd amlddisgyblaeth	33%	40%	20%	7%	0%
Cynorthwyo staff i adnabod cleifion bregus a allai wynebu oedi	53%	40%	7%	0%	0%
Sicrhau bod cynlluniau rhyddhau unigol ar waith i gleifion ag anghenion cymhleth	60%	27%	13%	0%	0%
Cysylltu â chyrrff cyhoeddus eraill i rwyddhau'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ac osgoi aildderbyniadau	60%	27%	7%	7%	0%
Creu man cyswllt canolog ar gyfer ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol	67%	33%	0%	0%	0%
Gweithio gyda rheolwyr gweithredol i ddatblygu mesurau	27%	20%	40%	7%	7%

Gweithgareddau cynllunio i ryddhau cleifion	Pa mor aml yr adroddwyd bod timau cyswllt rhyddhau cleifion yn cyflawni'r gweithgareddau a ganlyn				
	Bob amser	Yn aml	Weithiau	Yn anaml	Byth
perfformiad ar gyfer rhyddhau cleifion o ysbytai					
Dilysu data ar oedi wrth drosglwyddo gofal	87%	7%	0%	0%	7%
Darparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff clinigol ar ryddhau cleifion yn brydlon	33%	13%	40%	13%	0%
Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i reolwyr gwely ynghylch rhyddhau cleifion	67%	20%	0%	7%	7%
Darparu cyngor a chymorth ynghylch opsiynau tai i gleifion a'u teuluoedd	27%	27%	20%	7%	20%
Cyfeirio cleifion a'u teuluoedd i dderbyn cyngor a chefnogaeth er mwyn parhau i fyw'n annibynnol adref	33%	27%	27%	7%	7%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o wybodaeth am gynllunio i ryddhau cleifion a ddychwelwyd gan gyrrff y GIG yn 2017 ([Gweler Troednodyn 9](#))

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

e-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Welsh Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Phone: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

e-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales